



Canllaw yn unig yw'r wybodaeth a ddarperir yn y Diweddariad Cyllid hwn. Cysylltwch â'r arianwyr yn uniongyrchol i gadarnhau cymhwysedd ar gyfer yr arian.

Drwy gydol y diweddariad hwn bydd dolenni i wefannau allanol. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd cyfrifoldeb am dudalennau a gynhelir gan ddarparwyr allanol.

## Y Newyddion Cyllid Diweddaraf a Newyddion am y Sector....

**Dysgwch ar lein gyda Hafan Dysgu'r CGGC!** Mae [Hafan Dysgu'r CGGC](#) yn cynnig ffordd hawdd a chyraeddadwy i ddysgu ar lein. Bydd y safle yn cynnal amrywiol gyrsiau annibynnol yn ogystal â darparu cynnwys ac adnoddau i gyfoethogi ein sesiynau traddodiadol o fewn y dosbarth. Ewch i [www.learningzone.wales](http://www.learningzone.wales) nawr i ddechrau ar eich taith ddysgu ar lein. Mae'r cyrsiau hyn yn barod, ar gael ac yn rhad ac am ddim i bawb: [Cadw'n iach i godi arian](#), [Cyflwyniad i strwythurau cyfreithiol a statws elusennol](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) - Yr hanfodion](#). Bydd y cynnwys yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a bydd cyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu felly sicrhewch eich bod yn ymweld â'r safle i weld beth sy'n newydd. Os gwelwch nad ydym ar hyn o bryd yn cynnig rhyw gwrs yr hoffech chi ei gael, [cysylltwch â ni](#) i adael i ni wybod

### **Egni Lleol – Porth Partneriaeth**

Nod y Porth Partneriaeth yw cefnogi perchnogaeth gymunedol o brosiectau egni adnewyddadwy. Gall y Porth gael ei ddefnyddio gan grwpiau cymunedol i bostio gwybodaeth am eu prosiect, gan bartneriaid posibl neu fuddsoddwyr fyddai'n dymuno cefnogi prosiect yn eu hardal a chan gynlluniau egni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n barod i rannu eu profiadau a chynnig cefnogaeth cymheiriaid.

### **Cynllun Gweithredu Adfer Natur**

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn dangos sut y bydd Cymru'n annerch y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Bydd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn dynodi camau gweithredu all gael eu cyflawni yn y tymor byr a gosod cynllun yn ei le i gyflawni ymrwymadau tymor hirach, tu hwnt i 2020. Bydd camau gweithredu'r cynllun yn cael eu harolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gyrraedd amcanion a chyflawni uchelgais adfer natur yng Nghymru. Bydd set o ddangosyddion hefyd yn cael eu datblygu i fesur cynnydd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn erbyn amcanion. I gyd-fynd â'r cynllun, bydd Fframwaith Adfer Natur yn egluro rôl a chyfrifoldebau gweithwyr allweddol i ddarpariaeth gweithredu bioamrywiaeth yng Nghymru a sut y cysylltir hwy. Bydd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylcheddol (Cymru) 2016, ac yn eu cyfannu.

### **Gwasanaethau Pay Connect y CGGC**

Mae Gwasanaethau Pay Connect y CGGC yn wasanaeth proffesiynol, ymroddedig ar gyfer elusennau a chymdeithasau dielw. Mae ganddynt strwythur prisio clir heb ffioedd cudd am gyflawni Treth diwedd blwyddyn. Am fwy o wybodaeth neu ddyfynbris, cysylltwch â

[scole@wcva.org.uk](mailto:scole@wcva.org.uk) neu ewch i: [www.wcva.org.uk/advice-guidance/pay-connect](http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/pay-connect) am rhagor o wybodaeth.

### **'Wales Biodiversity Partnership Conference: Delivering Nature Recovery in Wales'**

(7-8 Medi 2016, Prifysgol Bangor)

Mae trafodion cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBP) ar gael yn [awr](#). Canolbwyntiwyd ar y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol yn ystod y diwrnod cyntaf a Chynllun Adfer Natur Cymru. Yr ail ddiwrnod, diwydiant yn ymgymryd â mentrau bioamrywiaeth oedd dan sylw a'r sialensiau i gyrraedd yr amcanion llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## **Beth sy'n newydd?**

### **Y Gymdeithas Ecolegol Brydeinig- Grantiau Allgymorth**

Mae grantiau ar gael i gymdeithasau i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo gwyddoniaeth ecolegol i gynulleidfaoedd eang. Mae'r gronfa hon yn cael ei rheoli gan Y Gymdeithas Ecolegol Brydeinig (CEB). Mae ecoleg yn cael ei ddiffinio gan CEB fel yr astudiaeth wyddonol o ddsbarthiad, helaethrwydd a dynameg organeddau, eu cyd-adweithio ag organeddau eraill a'u hamgylchedd ffisegol. £2,000 yw'r uchafswm a ddyfernir. Mae'n hanfodol fod y ceisiadau yn hyrwyddo gwyddoniaeth ecolegol ac yn tynnu sylw'r cyhoedd at hyn. Rhaid i'r holl amcanion gael eu hanelu at gynulleidfa anacademaidd a rhaid i bob prosiect ddarparu prawf o ryngweithio uniongyrchol gyda'r cyhoedd. Rhaid i bob dyddiad dechrau prosiect fod ar ôl 14 Mai 2017. Ceir mwy o wybodaeth [yma](#).

Dyddiad cau: **22 Mawrth 2017**.

### **Cronfa Coed y Gymuned**

Mae grantiau ar gael ar gyfer grwpiau sy'n awyddus i gymryd rhan mewn prosiectau plannu coed yn ystod [Wythnos Genedlaethol Coed](#), (25 Tachwedd - 3 Rhagfyr 2017). Mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau fydd yn costio rhwng £100 - £700. Rhaid i'r prosiectau Plannu Coed ddigwydd yn ystod [Wythnos Genedlaethol Coed](#), rhaid bod plant dan 16 oed yn cymryd rhan weithredol a rhaid iddo ddigwydd ar dir lle mae mynediad i'r cyhoedd. Mae costau cymwys yn cynnwys cost y coed ac unrhyw gynnalbrennau a chymhorthion angenrheidiol ar gyfer sefydlu'r coed. Gellir defnyddio'r nawdd ar gyfer plannu hyd at bedair coeden ffrwythau. Os dymunwch blannu mwy, gwnewch gais i'r [Orchard Windfalls Fund](#). Rhaid bod trefniadau cynnal a chadw addas yn ei le ar gyfer edrych ar ôl y coed unwaith y maent wedi'u plannu. Dyddiad cau: **31 Mawrth 2017**.

### **Tyfu Prydain Wyrddach – Rhaglen Grantiau a Chyllido Torfol**

Mae Tyfu Prydain Wyrddach wedi'i sefydlu gan idverde UK, contractwr ledled y wlad sy'n creu a chynnal parciau a mannau agored ar draws y DU, i helpu i ariannu prosiectau cymunedol mewn parciau a mannau agored sy'n eiddo i'r cyhoedd ar draws Prydain. Ym Mhrydain, gall grwpiau Cymunedol sydd wedi'u ffurfio wneud cais am grant at hyd at £1,000 ar gyfer prosiectau sy'n gweddnewid mannau gwyrdd ym Mhrydain.

Mae hyn yn cynnwys:

- Gwelliannau neu addasiadau ar gyfer mannau lle ceir mynediad i'r cyhoedd:
  - Parciau
  - Gerddi
  - Mynwentydd
  - Mannau agored gwyrdd, yn cynnwys mannau gwyrdd mewn cynlluniau tai cymdeithasol
- Gwaith ar dir ysgolion gwladol
- Gwaith ar dir preifat sy'n annog mynediad rhad ac am ddim i'r cyhoedd i'w mwynhau, gan gynnwys peth tir prifysgol.
- Creu ardaloedd bywyd gwyllt a phyllau.

- Gwella mynediad i'r anabl.
- Gwneud ardal yn fwy diogel ac yn fwy addas ar gyfer teuluoedd.
- Prosiectau rheoli/addysg Amgylcheddol a Bioamrywiaeth mewn cymunedau lleol.
- Prosiectau hyfforddi neu gyflogaeth sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn hyfforddiant na'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd.

Gellir gwneud cais unrhyw bryd: ceir mwy o wybodaeth am fenter cyllido torfol [yma](#).

### **Rhaglenni Grantiau'r DU Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree**

Mae gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree ddiddordeb mewn ariannu gwaith sy'n canolbwyntio ar gael gwared â phroblemau drwy ddatrysiaid radicalaidd yn hytrach na dim ond gwneud i broblem fod yn haws byw gyda hi. Terfyn amser am geisiadau yng Ngogledd Iwerddon, Dyfodol Cynaliadwy a Cross Cutting yw **27 Mawrth 2017** a **21 Awst 2017**. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Heddwch a Diogelwch, Pŵer ac Atebolrwydd a Hawliau a Chyfiawnder yw **10 Ebrill 2017** a **4 Medi 2017**.

### **Acwariwm Morol Cenedlaethol**

Mae Acwariwm Cenedlaethol Cyf, sef cangen dosbarthu grantiau'r Acwariwm Morol Cenedlaethol, yn darparu cyllid. Amcan y cynllun hwn yw cefnogi prosiectau ymchwil, addysg a chadwraeth sy'n cysylltu pobl â'r amgylchedd morwrol. Hyd yn hyn, mae'r grantiau sydd wedi'u dyfarnu wedi bod rhwng £1,200 a £5,000 ac mae'n debygol y bydd grantiau'r dyfodol rhywbeth yn debyg. Mae elusennau cadwraethol, grwpiau cymunedol, ysgolion, colegau ac unigolion i gyd yn gymwys i wneud cais a does dim cyfyngiadau daearyddol ar leoliad y prosiectau nac ar ble y daw'r cais. Rhoir ystyriaeth i brosiectau o unrhyw faint ond rhoir blaenoriaeth i fentrau lleol a chenedlaethol. Anogir prosiectau sy'n targedu grwpiau dan anfantais a bydd prosiectau sy'n dangos dulliau gwreiddiol yn fwy tebygol o ddenu cefnogaeth. Dyddiad cau: **21 Ebrill 2017**.

### **Canolfan Ariannol Cyfalaf Naturiol (Natural Capital Financial Facility - NCF)**

Ariannir y Canolfan Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCF) drwy raglen LIFE dros Newid yr Amgylchedd a Hinsawdd a chaiff ei reoli gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB).

Y prif nod yw dangos bod prosiectau cyfalaf naturiol yn gallu cynhyrchu refereniw neu arbed costau tra'n cyflawni amcanion bioamrywiaeth ac addasiadau hinsawdd. Bydd y Canolfan Ariannol Cyfalaf Naturiol (NCF) yn datblygu cyfres o weithrediadau y gellir eu hatgynhyrchu ac a fydd yn ddiogel yn ariannol fydd yn sefyll fel 'prawf o gysyniad' ac a fydd yn dangos atyniad y fath gynlluniau i fuddsoddwyr posibl.

Yn nodweddiadol, bydd y prosiectau hyn rhwng €5 miliwn a €15 miliwn. Mae sefydliadau cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys llywodraethau lleol, meddianwyr tir a busnesau yn gymwys i wneud cais.

Bydd prosiectau yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau yn cael eu cefnogi. Projects focused on biodiversity and ecosystem services (BES) will be supported.

Dylai prosiectau hyrwyddo cadwraeth, gwaith adfer, rheoli a gwelliant cyfalaf naturiol sy'n gallu bod o fantais i fioamrywiaeth ac addasiadau hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys datrysiaadau ar sail ecosystemau i sialensau'n ymwneud â thir, pridd, coedwigoedd, amaeth, dŵr a gwastraff.

Mae esiamplau o brosiectau'n cynnwys:

- Seilwaith Gwyrdd (e.e. toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, casglu dŵr glaw wedi'i seilio ar ecosystem/ system ail-ddefnyddio dŵr, amddiffyn rhag llifogydd a rheolaeth ar erydu.)
- Taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau (e.e. rhaglenni i warchod a gwella coedwigoedd, bioamrywiaeth, i leihau llygredd dŵr neu bridd).
- Gwrthbwysio bioamrywiaeth / iawndal tu hwnt i ofynion y gyfraith (e.e. cronfeydd iawndal ar gyfer prosiectau iawndal ar safle ac oddi ar safle).
- Busnesau yn gefnogol i fioamrywiaeth ac ymaddasu (e.e. amaeth, dyframaethu, eco-dwristiaeth, coedwigaeth gynaliadwy).

Ac eithrio "Gwrthbwysio Bioamrywiaeth" gall bob un o'r categorïau uchod gynnwys prosiectau mewn ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel yn cael eu gwarchod yn Natura 2000. **Mae dyddiad cau symudol ar gyfer y gronfa hon.**

### **Powys - Cronfa Grant Cyfalafol Adfywio a Datblygu Cymunedol Powys**

Mae Powys yn cydnabod gwerth grwpiau a chymdeithasau cymunedol sy'n ceisio cynnal eu cymunedau eu hunain, trwy ymgymryd â phrosiectau sy'n cynnwys cyfranogiad lleol gan bawb. Prif bwrpas Cronfa Grant Cyfalafol Adfywio a Datblygu Cymunedol (Grant Cyfalafol Cronfa Cefnogi Galluedd Cymunedol gynt) yw cefnogi datblygiad cymdeithasol a chymunedol. Gall grwpiau a sefydliadau gwirfoddol sy'n gallu profi iddynt fod â chyfansoddiad priodol wneud cais. Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys cael gafael ar neu wella asedau sefydlog sydd â gwerth hir dymor i'r grŵp neu'r sefydliad, fel tir, adeiladau ac offer a pheiriannau sylweddol. Mae asedau cyfalaf yn siapio'r ffordd y mae gwasanaethau'r grŵp neu sefydliad yn cael eu cyflenwi yn y tymor hir, ond byddant yn creu ymrwymadau ariannol ar gyfer y dyfodol drwy ariannu costau a chostau rhedeg refeniw. Refeniw yw ble mae costau rhedeg gwariant y grŵp neu sefydliad yn cael ei wneud - yn berthnasol i bethau fel cyflogau, costau gwres a goleuo, treuliau ayb. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i'r ceisiadau hynny sy'n cyrraedd amcanion a nodau Cyngor Sir Powys neu sy'n helpu darpariaeth y strategaeth. Fel arfer, bydd y grantiau hyd at £15,000 a gellir gwneud cais unrhyw bryd.

### **'Ymddiriedolaeth Ynni'r Bobl' - Scottish Power**

Mae Ymddiriedolaeth Ynni'r Bobl, gydag arian gan Scottish Power a rhoddion gwirfoddol gan gefnogwyr annibynnol, yn darparu grantiau i sefydliadau gwerin gwlad sy'n helpu pobl ar incwm isel, sy'n byw mewn tai gwael neu sy'n dioddef o salwch. Dyddiadau cau: **24 Mai a 4 Hydref 2017.**

## **Cyllido Torfol Crowdfunding**

### **Earth Ways**

Cafodd plattform cyllido torfol Earth Ways ei greu er mwyn helpu codi arian ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi tair egwyddor foesegol allweddol: Gofal am y Ddaear, Gofal am Bobl a Rhannu'n Deg. Cyfeiria Gofal am y Ddaear at weithgareddau sy'n diogelu'r pridd, cadw'r aer a'r dŵr yn lân, gwarchod bioamrywiaeth ac arbed egni a gwarchod adnoddau naturiol. Mae Gofal am Bobl yn golygu iechyd a lles, maeth o fwyd da, dysgu gydol oes, ymddiriedaeth, parch a gwaith arwyddocaol. Pwysleisia Rhannu'n Deg drosraniad teg o adnoddau, rhyngweithio a chydweithio, lleihau prynwriaeth ac ailfeddwl am amcanion twf, cynnydd a datblygiad. Dylai unrhyw ymgyrch y dymunech ei chyflwyno fod yn gweithio tuag at helpu o leiaf un o'r egwyddorion a pheidio â dylanwadu'n negyddol ar yr un o'r tair arall.

### **Tyfu Prydain Wyrddach - Cyllido Torfol**

Beth am weld Prydain wyrddach drwy greu neu drawsnewid gwagleoedd gwyrdd ar draws y DU? Mae arian ar gael i drawsnewid syniadau gwefreiddiol yn realiti: felly os ydych am dacluso rhyw ardd gymunedol neu adeiladu fferm acwaponig ben to, hoffai Tyfu Prydain Wyrddach gael golwg ar eich syniadau! Gall unrhyw un gael syniad a'i lanlwytho ar y plattform cyllido torfol, Spacehive. Os yw'ch prosiect chi yn boblogaidd gyda'r dorf, ac yn cyrraedd ein meini prawf, gallech gael eich dwylo ar addewid o hyd at £5,000! Sefydlwyd Tyfu Prydain Wyrddach gan The Landscape Group, contractwr cenedlaethol sy'n gofalu am leoliadau gwyrdd cyhoeddus ar draws y DU.

### **Just Giving**

Mae Just Giving yn blatfform cyllido torfol sy'n gwneud i bethau da ddigwydd! Cenhadaeth Just Giving yw sicrhau nad oes unrhyw achos gwerth chweil nad yw'n cael ei ariannu. Ers ei sefydlu yn 2001, mae Just Giving wedi helpu i 25,788 o elusennau ar draws y byd godi dros \$4.2 biliwn tuag at achosion da. Gellir codi arian tuag at unrhyw beth sydd ag effaith gadarnhaol ar unigolion, gymunedau a'r amgylchedd. Os na wnewch chi gyrraedd eich targed, byddwch yn dal i dderbyn faint bynnag y byddwch wedi ei godi (ac eithrio ffioedd bychain), felly byddwch yn dal i lwyddo i wneud i bethau da ddigwydd. Gallwch lansio ymgyrch mewn munudau a chyllido'n dorfol yr arian sydd ei angen arnoch ar gyfer prosiect neu apêl arbennig. Gall pobl godi arian ar gyfer yr ymgyrch yn ogystal â rhoi arian. Golyga hyn y bydd eich ymgyrch yn cael ei hyrwyddo ar y wefan ac y bydd eich stori'n cyrraedd at 18m o aelodau.

## **WeTheTrees**

Dechreuwyd 'We The Trees' pan sylweddolodd grŵp o bermagwlturaliaid gweithredol bod ar y gymuned amgylcheddol wirioneddol angen dod o hyd i ffordd unigryw o godi arian. Mae 'We The Trees' yn rhoi cyfle i ni gyd gyflwyno ein prosiectau i'n teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach a chynnig iddynt y cyfle i gyfrannu. Ymunwch â'r ymgais hon, [cyflwynwch eich ymgyrch](#) a [chefnogwch eich cymuned!](#)

## **Elusennau, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau**

### **Ymddiriedolaeth Goffa Alan Evans**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau bach i sefydliadau elusennol sy'n weithredol yn y DU. Rhoddir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr ac yn y gorffennol dyfarnwyd grantiau o £1,000 a £1,500. Mae'r cynllun yn anelu at ariannu prosiectau ar gyfer diogelu meysydd o harddwch naturiol neu ddiddordeb hanesyddol yn barhaol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu blanhigion. Mae'r broses o wneud cais yn mynd rhagddi a gall ymgeiswyr â diddordeb wneud cais unrhyw bryd. Gellir gwneud cais drwy gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar gais oddi wrth yr Ymddiriedolaeth. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth. E-bost: [aevans@roydswithyking.com](mailto:aevans@roydswithyking.com)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Albert Van Den Bergh**

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol sydd yn ymwneud ag ymchwil iechyd a gofal i gleifion sydd â chancr, parlys ymledol neu glefydau ac anableddau eraill, gofal ar gyfer yr henoed a phlant yn y DU. Mae ariannu ar gael ar gyfer pwrpasau elusennol cyffredinol gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi elusennau sy'n cynorthwyo ymchwil iechyd, a gofal i'r henoed a phlant. Mae grantiau blaenorol wedi eu rhoi i ardaloedd yn cynnwys cadwraeth, help cymunedol a hosbisau. Am wybodaeth bellach e-bostiwch: [jane@trevornick.co.uk](mailto:jane@trevornick.co.uk)

### **Corff Amgylcheddol Amgen**

Mae'r cyllid grant hwn ar gyfer prosiectau o fewn Dyffryn Cynon sy'n darparu neu'n cynnal amwynderau neu barciau gyhoeddus; neu'n adfer neu atgyweirio adeiladau ar gyfer addoli crefyddol neu sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Mae'n rhaid i'r prosiectau fod o fewn 10 milltir i Safle Tirlenwi Bryn Pica, Aberdâr. Mae prosiectau blaenorol wedi cael grantiau yn amrywio o £3,000 i dros £200,000; fodd bynnag ni nodir isafswm nac uchafswm grant. O 1 Ebrill 2016 ni fydd y 10% ariannu cyfatebol ar gael i'w ariannu gan unrhyw un heblaw'r gweithredwr tirlenwi. Ni ddylai'r sefydliad sy'n gwneud cais gael ei reoli, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan awdurdod lleol neu weithredwr tirlenwi wedi'i gofrestru ar gyfer treth tirlenwi.

### **Ymddiriedolaeth Elusen Balcombe**

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol yn y DU sy'n ymgymryd â phrosiectau addysg, yr amgylchedd, iechyd a lles. Mae ariannu ar ddisgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Dyfarnwyd grantiau blaenorol o rhwng £200 a £160,000. Am ragor o wybodaeth e-bostiwch: [jonathan.prevezer@citroenwells.co.uk](mailto:jonathan.prevezer@citroenwells.co.uk)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Belsize Rhif 1**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau i sefydliadau elusennol sy'n gweithio yn y DU sy'n cynnal prosiectau ym meysydd cadwraeth, treftadaeth a'r amgylchedd. Mae cyllid ar gael yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr ac nid oes uchafswm o ran gwerth. Mae'r broses o wneud cais yn mynd rhagddi a gall ymgeiswyr â diddordeb wneud cais unrhyw bryd. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01235 232700.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Bernard Sunley**

Mae'r Sefydliad yn darparu grantiau yng Nghymru a Lloegr i gefnogi ystod eang o brosiectau elusennol ym meysydd cymunedol, addysg, iechyd a lles cymdeithasol. Mae tair lefel o grant ar gael; bach hyd at £5000, canolig £5001-£24,999 a mawr dros £25,000. Yn anaml bydd y Sefydliad yn talu'r costau llawn (neu hyd yn oed 50%) gan ei fod yn disgwyl bod yn un o nifer o gyfranogwyr

i'r prosiect. Mae'r ymddiriedolwyr yn cefnogi prosiectau cyfalaf yn unig, dim costau gweithredu. Derbynnir ceisiadau drwy'r ffurflen gais ar-lein yn unig. I gael rhagor o wybodaeth Ymwelwch â [www.bernardsunley.org](http://www.bernardsunley.org)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Bothwell**

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol sy'n ymgymryd â phrosiectau sy'n cynnwys materion cefn gwlad o fewn y DU. Mae'r grantiau ar gael yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolaeth. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig. Cysylltwch ag Ymddiriedolaeth Elusennol Bothwell i gael rhagor o wybodaeth ar **0208 657 6884**.

### **Cronfa Gymunedol Estyniad Burbo Bank**

Grantiau ar gael i amrywiaeth o sefydliadau di-elw ar gyfer prosiectau cymunedol ac amgylcheddol newydd neu bresennol sydd o fudd i breswylwyr lleol yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, y Wirral a Sefton. Sefydlwyd Cronfa Gymunedol Estyniad Burbo Bank gan DONG Energy, y cwmni sy'n gyfrifol am y fferm wynt alldraeth newydd ger Crosby. Bydd y gronfa yn rhoi £225,000 bob blwyddyn am y 25 mlynedd nesaf (2015-2040); grantiau bach £500-£5,000 a phrif grantiau £5,001-£25,000. Bydd rhaid i geisiadau prif grantiau gael ariannu cyfatebol o 20% (ddim rhaid ei gael cyn gwneud cais). Gall yr arian gefnogi gwelliannau adeiladau cymunedol, prosiectau amgylcheddol fel gwella parciau a thiroedd agored, a phrosiectau bywyd gwyllt yn cynnwys gwelliannau i gynefinoedd morol ac arfordirol. Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw **29 Mawrth 2017**. Mae mwy o wybodaeth a map rhyngweithiol yn dangos yr ardal a fydd yn elwa ar wefan [GrantScape](http://GrantScape) neu e-bost: [bbecf@grantscape.org.uk](mailto:bbecf@grantscape.org.uk)

### **Cronfa Fusnes Gwyrdd Yr Ymddiriedolaeth Garbon**

Gwasanaeth cefnogi newydd sbon yw Cronfa Fusnes Gwyrdd Yr Ymddiriedolaeth Garbon sy'n ymdrin ag effeithlonrwydd ynni ar gyfer cwmnïau bach a chanolig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n darparu cymorth ariannol uniongyrchol drwy asesiadau egni, gweithdai hyfforddi, cymorth caffael cyfarpar a hyd at £10,000 o gyfraniad cyfalaf tuag at brynu eich offer arbed egni.

### **Sefydliad Charles Hayward**

Dim ond i elusennau cofrestredig y mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau. Mae grantiau mawr a bach ar gael, yn dibynnu ar lefel incwm y sefydliad sy'n gwneud cais, a'r uchafswm grant sydd ar gael yw £50,000. Bydd grantiau bychain yn cael eu hystyried bob dau i dri mis ar drefn dreigl gyda gwahoddiad i geisiadau am grantiau mawr ymuno â phroses dau gam. Rhoddir pwyslais ar ariannu prosiectau sy'n datblygu neu'n arloesi. Un maes penodol y mae gan y Sefydliad ddiddordeb ynddo yw prynu tir (neu adennill tir a brynwyd yn ddiweddar) i'w ddefnyddio ar gyfer gwarchodfeydd natur.

### **CHK Elusennau Cyf**

Mae'r elusen yn dyrannu grantiau yn flynyddol i elusennau yn y DU sy'n ymwneud ag ystod eang o weithgareddau. Grantiau un tro ydynt tuag at gostau craidd neu i brosiect penodol lle mae ymgeiswyr wedi gofyn am gefnogaeth; yn cynnwys cyfraniad tuag at brosiect adeiladu, prynu offer arbenigol neu help gyda chostau rhedeg. Gall grantiau am fwy nag un mlynedd fod tuag at gostau sefydlu, neu am eitem benodol ar y gyllideb fel cyflog, costau craidd neu brosiect penodol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried ceisiadau bob dau fis.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol CLA**

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i sefydliadau yng Nghymru a Lloegr sy'n canolbwyntio ar ddarparu mynediad i gefn gwlad ar gyfer unigolion anabl a phobl ifainc difreintiedig o ganol y ddinas. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad addysg mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a chadwraeth gyfer y grwpiau hyn. Y grant cyfartalog yw £2,500 a rhoddir pwyslais ar brosiectau llai lle bydd y grant yn gwneud cyfraniad gwirioneddol tuag at lwyddiant y prosiect. Dylai ceisiadau fod ar gyfer prosiect penodol neu eitem sy'n gysylltiedig ag offer cyfalafol, yn hytrach na chostau rhedeg parhaus. Rhaid i brosiectau sy'n seiliedig ar weithgareddau garddwriaeth allu dangos eu bod nhw'n darparu hyfforddiant a fydd yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig ac achrededig ar gyfer y cyfranogwyr. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: [charitabletrust@cla.org.uk](mailto:charitabletrust@cla.org.uk)

neu ewch i'r wefan [www.cla.org.uk/about-cla/cla-charitable-trust](http://www.cla.org.uk/about-cla/cla-charitable-trust) i gael rhagor o wybodaeth ac er mwyn lawrlwytho ffurflen gais.

### **Clothworkers' Foundation**

Sefydlwyd hwn gan The Clothworkers' Company yn 1977. Cangen elusennol annibynnol y Cwmni ydyw ar gyfer gwaith elusennol. Ers ei sefydlu, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dyfarnu cyfanswm o £100m mewn grantiau. Nod y Sefydliad yw gwella bywydau pobl a chymunedau, yn arbennig y rhai dan anfantais. Dyfernir grantiau cyfalaf i elusennau sy'n gweithio yn un o feysydd penodol y rhaglen ac sydd â'u hincwm blyneddol yn llai na £15m. Mae dwy ffrwd ariannu, ac mae gan y ddwy gap ar incwm sefydliadol. Swm cyfartalog y grant a ddyfernir yw £7,000 - £25,000 a derbynnir ceisiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae cymrodoriaeth gadwriaethol flynyddol a bwrsariaethau i gadwriaethwyr cymwysedig ar gael ar gyfer mynychu cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi. Mae'r Sefydliad yn gweithio'n uniongyrchol â'r ymgeiswyr. Ni dderbynnir ceisiadau e-bost bellach.

### **Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo**

Mae'r Coalfields Regeneration Trust wedi bod ar waith yn weithredol yng Nghymru er 1999, ac mae wedi buddsoddi dros £16 miliwn mewn adfywio cymunedol. Bydd Swyddogion datblygu yn gweithio gyda'r gymuned er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n cael yr effaith fwyaf ar y ffyniant, cydnerthedd a'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu cydberthnasau cadarn gyda'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ac amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector, rhwydweithiau a gwasanaethau cynnal. Gall Rhaglen Grantiau Cymunedol Meysydd Glo yng Nghymru ddyfarnu grantiau rhwng £500 a £7,000 ar gyfer prosiectau y gellir eu cwblhau cyn pen 12 mis ac sy'n gallu adnabod canlyniadau cadarnhaol mesuradwy i bobl. Bydd angen i brosiectau fodloni un neu fwy o wyth thema er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth gan y cynllun. Noder! Mae cystadleuaeth frwd am gyllid yng Nghymru.

### **Elusen Cobb**

Grant ar gyfer sefydliadau elusennol sydd yn gweithio i hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy drwy addysg. Mae testunau cymwys yn cynnwys sgiliau gwledig traddodiadol, ailgylchu, bwyd a iechyd, a chynhyrchiad bwyd organig. Gall ceisiadau grant cael eu cyflwyno ar unrhyw adeg ac uchafswm grant yw £750. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr elusen; Eleanor Allitt, Elusen Cobb, 2 New Cottages, Village Street, Offchurch, Leamington Spa, CV33 9AP

### **Ymddiriedolaeth Cuthbert Horn**

Bwriad y cynllun yw cefnogi sefydliadau elusennol at ddibenion elusennol cyffredinol. Rhoddwyd grantiau blaenorol i ystod o weithgareddau fel cadwraeth, addysg, gwarchod yr amgylchedd, help i blant dan anfantais, cerddoriaeth, ymchwil a thrafnidiaeth. Mae ariannu ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr. Grantiau blaenorol rhwng £2,000 a £3,000 at gostau ynghlwm â phrosiect. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch: [ian.woodhouse@arnoldhill.co.uk](mailto:ian.woodhouse@arnoldhill.co.uk)

### **Cronfa Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) Dŵr Cymru**

Ers 2012, mae Dŵr Cymru wedi bod yn darparu cyllid (tua £100k y flwyddyn) i gynorthwyo sefydliadau nid-er-elw sydd am gyflawni prosiectau a fydd yn helpu i weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yr Undeb Ewropeaidd yn ein hardal gyflenwi. Ni yw'r unig gwmni Dŵr yn y DU i weithredu cynllun o'r fath.

Prif nod y gronfa yw dangos yn ymarferol pa mor gost-effeithiol a buddiol y gall gwelliannau mor arloesol a ariennir ar y cyd fod wrth ddiwallu gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, trwy:

- gynorthwyo prosiectau 'ar lawr gwlad' ac 'yn y dŵr' sy'n gwella ecoleg yr amgylchedd dŵr.
- targedu crynofeydd dŵr neu ardaloedd a amddiffynnir sy'n methu â chyflawni'r amcanion o dan y WFD.

Mae Dŵr Cymru wedi ariannu 13 o brosiectau hyd yn hyn.

Am rhagor o wybodaeth am y gronfa cystylltwch â: [wfd@dwrcymru.com](mailto:wfd@dwrcymru.com)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Dischma**

Mae grantiau ar gael ar gyfer sefydliadau elusennol yn y DU sy'n cyflawni gweithgareddau cadwraeth. Dyfarnir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr, sy'n cyfarfod yn flynyddol i adolygu ceisiadau ysgrifenedig. Mae ceisiadau blaenorol wedi bod rhwng £500 a £5,000. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at: [linda.cousins@rathbones.com](mailto:linda.cousins@rathbones.com)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte**

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte yn ariannu elusennau cofrestredig y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu yn y DU ym meysydd hyrwyddo'r celfyddydau, iechyd a lles meddygol, a gwarchod neu wella'r amgylchedd. Mae'r ffocws ar gyfer 2015-18 yn cynnwys mynediad at y celfyddydau ar gyfer pobl ifanc, darparu therapi celf a cherddoriaeth i wella ansawdd bywyd yr henoed a'r anabl, a diogelu a gwarchod cefn gwlad. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn grantiau sengl dros gyfnod o un flwyddyn rhwng £500 a £5,000. Dylai pob cais am grant gael ei wneud ar-lein drwy [www.doilycartecharitabletrust.org](http://www.doilycartecharitabletrust.org) <<http://www.doilycartecharitabletrust.org>> lle y gellir lawrlwytho canllawiau ymgeisio llawn yr ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr fel arfer yn ystyried ceisiadau ym mis Mawrth, Gorffennaf a Thachwedd. Os oes arnoch angen fersiwn o'r ffurflen gais ar ffurf fwy hygyrch, anfonwch e-bost at [info@doilycartecharitabletrust.org](mailto:info@doilycartecharitabletrust.org)

### **Ymddiriedolaeth Dulverton**

Sefydlwyd yn 1949, mae'r sefydliad yn rhoi grantiau hyd at gyfanswm werth dros £3 miliwn bob blwyddyn ar gyfer elusennau cofrestredig y DU sy'n gweithio o fewn y meysydd canlynol: cyfleoedd ieuencid, lles cyffredinol, cadwraeth, gwarchodaeth, ac Affrica. Rhoddir grantiau i elusennau sydd ag incwm dros £200,000 a llai na £10 miliwn, a rhoddir blaenoriaeth i'r rhai ag incwm sy'n is na £5 miliwn. I gael y canllawiau llawn, ewch i'r wefan: [www.dulverton.org](http://www.dulverton.org)

### **Ymddiriedolaeth Ernest Cook**

Mae adran addysg yr ymddiriedolaeth yn cynnig rhaglen eang o ddysgu sy'n seiliedig ar y tir ar gyfer plant a phobl ifanc ar ei hystadau. Mae'r ymddiriedolaeth yn derbyn ceisiadau i dderbyn grantiau ar gyfer prosiectau sy'n addysgu plant a phobl ifanc am y cefn gwlad a'r amgylchedd, yn y celfyddydau neu lythrennedd, ac mewn pynciau STEM. Mae gwaith sydd yn annog parhad sgiliau a chrefftau cefn gwlad o ddiddordeb arbennig i ymddiriedolwyr. Cofiwch! Disgwylir i'r holl geisiadau gysylltu â naill ai'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu gymwysterau cydnabyddedig. Mae grantiau ar gael hyd at £4,000 (bach) a dros £4,000 (mawr) ac yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn.

### **Sefydliad Esmée Fairbairn – Prif Grantiau**

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu llawer o grantiau. Mae ei brif raglen grantiau, ymhlith pethau eraill, yn ceisio ariannu prosiectau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd naturiol. Y blaenoriaethau ariannu ar gyfer yr amgylchedd naturiol yw: Cysylltu pobl â natur; Gwarchod amgylcheddau naturiol ar raddfa fawr ar dir ac ar y môr; Gwrthsefyll effeithiau gweithgareddau dynol niweidiol a chynyddu dealltwriaeth o blanhigion, anifeiliaid ac organeddau llai hysbys. Mae'r grantiau yn cefnogi costau craidd neu brosiect sefydliadau, gan gynnwys cyflogau staff a gorbenion. Mae'r broses ymgeisio yn un ac iddi ddau gam; cyflwynwch gais ar-lein yn gyntaf (cydnabyddiaeth mewn e-bost cyn pen wythnos, penderfyniad cyn pen mis), yna atebwch gwestiynau' sy'n cael eu gofyn gan Reolwr Grantiau neu Reolwr Buddsoddi Cymdeithasol (penderfyniad cyn pen 2 – 4 mis). Yn 2014 gwariwyd £36m mewn grantiau a chyflwynwyd £6m mewn buddsoddiadau cymdeithasol i 343 o sefydliadau sy'n gwneud gwaith elusennol yn y DU ar draws sectorau'r celfyddydau, pobl ifanc, yr amgylchedd a newid cymdeithasol. Gwnaeth grantiau 2014 amrywio o £6k i £1.25m (cyfartaledd canolrifol o £90,000), gyda chymorth yn para 1-5 mlynedd (47% 3 blynedd). Nid oes unrhyw derfynau amser neu rwystrau ar ailymgeisio.

### **Sefydliad Esmée Fairbairn – Grantiau Bwyd**

Nod y llinyn bwyd yw dod o hyd i system amgen sy'n cynhyrchu bwyd o safon uwch mewn ffyrdd sy'n well i bobl, yr amgylchedd ac anifeiliaid. Nid oes uchafswm grant. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn cynnig nifer fach o grantiau dros £500,000 ac mae'n anarferol i'r sefydliad roi grant o'r maint hwn neu fwy i sefydliad nad oes ganddo gydberthynas ag ef eisoes. Blaenoriaethau'r



grantiau yw: Arloesedd lleol o ran defnyddio dulliau amgen, bwyd a lles, a gweithio tuag at sector bwyd mwy cydlynol.

### **February Foundation**

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau i achosion elusennol dethol. Ariennir nifer o feysydd, gan gynnwys 'elusennau sy'n diogelu'r amgylchedd'. Swm cyfartalog y grant yw £5k ar gyfer costau craidd neu gyfalaf. Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ar reoli ei ymrwymadau presennol, er ei fod yn dal i dderbyn ceisiadau oddi wrth rai elusennau. Nid oes unrhyw ddyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan fod yr ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau misol ynglŷn â dyfarnu grantiau; er hynny ni ddylai ymgeiswyr ailgyflwyno cais am o leiaf 12 mis. Dylid anfon ceisiadau e-bost i [rps@thefebbruaryfoundation.org](mailto:rps@thefebbruaryfoundation.org) Bydd penderfyniad yr ymddiriedolwyr yn cymryd 12 wythnos.

### **Cyngor Astudiaethau Maes – Cronfa Plant**

Mae'r gronfa yn cynorthwyo pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i ddeall yr amgylchedd, trwy eu helpu i fynychu cwrs mewn canolfan astudiaethau maes trwy dalu hyd at 80% o'u ffioedd. Mae tair rownd gyllid bob blwyddyn, ac mae'r dyddiadau cau ar **1 Mawrth, 1 Mehefin a 1 Tachwedd** – gallwch wneud cais ar unrhyw adeg a bydd eich cais yn cael ei gadw tan y rownd nesaf.

### **Sefydliad Finnis Scott**

Gall Ymddiriedolwyr y Sefydliad ddyfarnu grantiau at unrhyw ddiben elusennol, ond eu polisi presennol yw canolbwyntio ar ddyfarnu grantiau ym meysydd garddwriaeth a gwyddorau planhigion, yn ogystal â chelf gain a hanes celfyddyd. Mae'r grantiau fel arfer yn amrywio rhwng £500 a £10,000. Gall ymgeiswyr Prydeinig sy'n cyflwyno cais i Longwood Gardens ac sy'n cael eu derbyn ar un o'i raglenni rhyngwladol wneud cais i'r Finnis Scott Foundation am gymorth ariannol gyda chostau teithio i ac o'r Unol Daleithiau. I gael ffurflen gais anfonwch e-bost i: [administrator@finnis-scott-foundation.org.uk](mailto:administrator@finnis-scott-foundation.org.uk)

### **Ymddiriedolaeth Ford Britain**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i gefnogi'r cymunedau sy'n agos at eu gweithfeydd cynhyrchu ceir. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu'r ardal sy'n agos at y gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi sylw arbennig i brosiectau sy'n canolbwyntio ar addysg, yr amgylchedd, plant, pobl anabl a gweithgareddau ieuencid.

**Grantiau bach:** £250, ar gael pedair gwaith y flwyddyn (Mawrth, Mehefin, Medi a Thachwedd).

**Grantiau mawr:** £250-£3,000 ar gael dwy waith y flwyddyn. Mae'r dyddiadau cau o 1 Medi – 31 Ionawr i gael eu cysidro yn Mawrth ag 1 Mawrth – 31 Gorffennaf i gael eu cysidro yn Medi.

### **Sefydliad Foyle**

Mae'r sefydliad yn ymddiriedolaeth rhoddi grantiau annibynnol sy'n rhoi grantiau i elusennau y DU ledled amrywiaeth eang o weithgareddau; ers 2001 mae wedi rhoi £73.5 miliwn. Mae'r sefydliad yn cefnogi elusennau mewn tri phrif faes: Prif Gynllun Grantiau (Celfyddydau a Dysgu), Cynllun Llyfrgelloedd Ysgolion Foyle a Chynllun Grantiau Bach (i elusennau sydd â throsiant o lai na £100,000 y flwyddyn). Ceir gwybodaeth bellach am bob un o'r cynlluniau grantiau hyn ar wefan y sefydliad, sef [www.foylefoundation.org.uk](http://www.foylefoundation.org.uk) Nid oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno a gallwn dderbyn ceisiadau drwy'r amser, ond efallai y bydd yn cymryd hyd at bedwar mis i gael penderfyniad gan ymddiriedolwyr. Mae'r gystadleuaeth am gyllid yn ddwys.

### **Ymddiriedolaeth Amaethyddol Frank Parkinson**

Mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cyfoethogi neu'n gwella amaethyddiaeth ym Mhrydain ac a fydd yn gadael yr argraff orau dros yr ardal fwyaf eang. Symiau penodedig yw'r grantiau, na fydd yn codi a bydd yn rhaid eu gwario dros gyfnod o fwy na blwyddyn. Bydd y taliadau'n cael eu derbyn dim ond os gellir darparu tystiolaeth briodol bod y prosiect ar amser ar bob achlysur. Disgwylir i gymdeithasau sydd angen mwy o gyllid ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain i gael arian cyfatebol. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: [janetpudsey@live.co.uk](mailto:janetpudsey@live.co.uk)

### **Sefydliad Freshfield**

Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn y DU sy'n cynnal prosiectau ym meysydd datblygu cynaliadwy, lleihau newid yn yr hinsawdd a gwaith i leddfau effeithiau trychineb dramor. Rhoddir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr, ond yn y gorffennol mae grantiau sy'n werth hyd at £500,000 wedi cael eu dyfarnu. Cysylltwch â Sefydliad Freshfield am ragor o wybodaeth am y grant hwn. E-bostiwrch [paul.k@bwm.co.uk](mailto:paul.k@bwm.co.uk)

### **Ymddiriedolaeth Frognal**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau i sefydliadau elusennol sy'n weithredol yn y DU sy'n cynnal gweithgareddau lles cymdeithasol, amgylcheddol neu gymunedol. Bwriedir i'r grant gefnogi elusennau cofrestredig bach sy'n gweithio mewn meysydd sy'n cynnwys diwylliant a threftadaeth, prosiectau cadwraeth, gwasanaethau cymunedol, parciau, cartrefi hosbis a chartrefi nyrsio ac ymchwil offthalmolegol. Rhoddir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr ac mae'r broses gwneud cais yn mynd rhagddi ac felly gall ymgeiswyr â diddordeb wneud cais unrhyw bryd: [sue.hickley@wilsonslaw.com](mailto:sue.hickley@wilsonslaw.com)

### **Sefydliad Gannett**

Mae'r Sefydliad yn darparu cyllid i gefnogi sefydliadau lleol yn yr ardaloedd hynny yn y DU lle mae Newsquest yn gweithio. Mae hyn yn bennaf yn y De, ac yn enwedig yng Nghaerffili, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Bro Morgannwg. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr gadarnhau eu cymhwysedd daearyddol ymlaen llaw. Mae'r Sefydliad yn cefnogi prosiectau sy'n mabwysiadu ymagwedd greadigol tuag at faterion sylfaenol megis: addysg a gwelliannau i'r gymdogaeth, datblygu economaidd, datblygiad ieuencid, datrys problemau yn lleol, cymorth i bobl o dan anfantais neu bobl anabl, cadwraeth amgylcheddol a chyfoethogi diwylliannol. Fel arfer dyfernir grantiau rhwng £5,000 a £10,000.

### **Sefydliad Garfield Weston**

Mae'r Sefydliad yn elusen fawr gyffredinol yn y DU; ac yn ariannu gweithgareddau a chostau cyfalaf. Gall y gweithgareddau naill ai fod yn gostau craidd neu gostau prosiect. Er bod y sefydliad yn canolbwyntio'n gyffredinol ar yr ieuencid, y gymuned a lles, mae hefyd yn ariannu categorïau ehangach gan gynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd a threftadaeth, sefydliadau sy'n seiliedig ar ffydd, iechyd, addysg a'r amgylchedd. Nid oes paramedrau penodol o ran swm grantiau. Ar gyfer y prif grantiau (o dan £100,000) mae un cam i'r broses o wneud cais, gyda galwad agored. Ar gyfer grantiau mawr (dros £100,000) mae'r broses yn fwy manwl, a ddechreuir trwy gyflwyno llythyr cynnig.

### **Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones**

Grant ar gael i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yng Ngogledd Cymru sy'n ymgymryd â phrosiectau'n ymwneud â gweithgareddau cadwraeth, gwarchod a lles bywyd gwyllt a gweithgareddau addysgol. Mae ariannu ar ddisgrisiwn yr Ymddiriedolwyr. Grantiau blaenorol rhwng £1,000 a £10,000. Dylid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig at Gaynor Cemlyn-Jones Trust, 122 Llanrwst Road, Bae Colwyn, Conwy, LL28 5UT neu am wybodaeth bellach e-bostiwrch: [colin.wickens@quiltercheviot.com](mailto:colin.wickens@quiltercheviot.com)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Gordon Fraser**

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgrisiwn llawn o ran y math o waith elusennol a gefnogir; fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar gefnogi prosiectau sy'n ymwneud â phobl ifanc, pobl ag anabledau, yr amgylchedd a'r celfyddydau dros y blynyddoedd diwethaf. Dyfernir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Ar hyn o bryd, rhoddir cyfraniadau hyd at gyfanswm o tua £140,000 i oddeutu 100 o elusennau bob blwyddyn. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd a byddant yn cael eu hystyried yn chwarterol ym mis Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref.

### **Sefydliad Graham Kirkham**

Mae grantiau ar gael i sefydliadau elusennol sy'n cynnal prosiectau addysg, lles neu gymunedol yn y DU, gan gynnwys diogelu a chadw adeiladau o ddiddordeb pensaernïol sy'n rhan o safleoedd o

ddiddordeb hanesyddol neu harddwch naturiol. Dyfernir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Mae grantiau blaenorol wedi bod yn gyffredinol rhwng £250 a £10,000 gydag un neu ddau o grantiau mwy hyd at £150,000. Mae'r broses ymgeisio yn barhaol a gall ymgeiswyr sydd â diddordeb gyflwyno cais unrhyw bryd. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01302 573301.

### **Sefydliad Greggs - Grantiau Amgylcheddol**

Mae pobyddion Greggs wedi sefydlu cynllun grantiau a ddefnyddiwyd o enillion treth 5c y bagiau cludo. Mae'r cynllun grantiau sydd wedi ei ffocysu ar yr amgylchedd yn bwriadu gwneud gwahaniaeth i bobl mewn angen yng nghanol eu cymunedau lleol, drwy wella'r amgylchedd ble maent yn byw. Mae grantiau bychain ar gael o hyd at £2,000. Peilot yw'r rhaglen yma a chaiff y canlyniadau eu hadolygu ar ddiwedd y chwe mis i sicrhau bod y rhaglen yn cael y lefel dymunol o effaith. Mae'r gronfa ar agor i dderbyn ceisiadau ar hyn o bryd a'r dyddiad cau presennol yw: **24 Mehefin 2017**.

### **Ymddiriedolaeth Greggs - Cronfa Brosiectau Cymunedol Lleol**

Mae'r gronfa'n helpu cymdeithasau sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol i ddarparu prosiectau neu gyflenwi cyfarpar i bobl mewn angen yng nghanol eu cymunedau lleol. Mae grantiau hyd at £2,000 ar gael ar gyfer pob rhan o Brydain. Rhwir blaenoriaeth i gymdeithasau ble ceir siopau neu safleoedd Greggs gerllaw. Mae arian ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cryfhau'r gymuned dan sylw. Gall hyn gynnwys gweithgareddau sesiynol/cymorth seibiant, cyfarpar ar gyfer gweithgareddau sesiynol, tripiâu a gwyliau preswyl. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd ddiddordeb mewn cynigion newydd a syniadau gwreiddiol yn ogystal â chynigion cynaliadwy i gefnogi'r gymuned dan sylw. **Dyddiad cau: 24 Mehefin 2017**

### **Grimple's Green Grants Scheme**

Lansiwyd Grimple's Green Grants ym mis Awst 2010 gan y Green Insurance Company i annog 'ymddygiad gwyrdd'. Mae'r cynllun grant wedi dyfarnu dros £50,000 i grwpiau cymunedol amgylcheddol ac mae ymlyniad gydag elusennau sy'n ymwybodol o'r amgylchedd wedi codi dros £250,000 ar gyfer yr RSPB, y Marine Conservation Society a'r Royal Zoological Society. Gallwch wneud cais ar-lein am Grantiau Gwyrdd (Green Grants) misol drwy lanw'r ffurflen gais neu ddefnyddio'r dudalen ar Facebook. Rhaid i brosiectau llwyddiannus fod wedi eu cwblhau neu ddigwydd cyn pen 12 mis o dderbyn y nawdd.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol HDH Wills 1965**

Mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig cyffredinol, amgylcheddol a bywyd gwyllt. Rhoddir grantiau misol o rhwng £250 a £1,000 i elusennau cyffredinol a'r rhai sy'n ymroddedig i warchod bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Mae'n bwysig bod yr elusen neu'r prosiect sy'n gwneud cais yn ddigon bach er mwyn i'r grant gael effaith ystyrlon. Mae grantiau mwy rhwng £2,000 a £25,000 ar gael hefyd. Mae un o gronfeydd yr ymddiriedolaeth, Cronfa Martin Wills, hefyd yn rhoi grantiau mawr i elusennau eraill yn rheolaidd, gan gynnwys Coleg Magdalen ym Mhrifysgol Rhydychen, Coleg Rendcomb yn Cirencester, a Sefydliad Ditchley. Rhoddir grantiau ar sail dreigl, felly nid oes dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol JJ**

Caiff Grant Ymddiriedolaeth JJ ei ddarparu a'i weinyddu gan Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury ac mae ar gael i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n weithredol yn y DU. Bwriedir i'r cynllun helpu prosiectau i wella llythrennedd a'r amgylchedd, yn y DU a thramor. Yn arbennig, mae'r cynllun am helpu prosiectau sydd â'r themâu canlynol: Newid cymdeithasol a diwylliannol tuag at ffordd o fyw fwy cynaliadwy - dulliau creadigol sy'n gallu gweld dyfodol cynaliadwy mewn ffyrdd cadarnhaol: Modelau menter ac economaidd arloesol sy'n cefnogi ffyrdd o fyw cynaliadwy a rôl y cyfryngau wrth gyfleu cynaliadwyedd Prosiectau amgylcheddol dramor, yn enwedig mentrau amaethyddol yn y gymuned, sy'n ceisio helpu pobl i'w helpu eu hunain mewn ffordd gynaliadwy yn amgylcheddol.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau i elusennau cofrestredig a grwpiau cyfansoddiadol yn y DU. Mae grantiau ar gael er mwyn helpu i sefydlu sefydliadau neu gymryd cam sylweddol ymlaen mewn prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth o dan un o bedair prif flaenoriaeth yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys yr amgylchedd. Mae grantiau rhwng £2,000 a £10,000 ar gael ar gyfer costau prosiect ac mewn achosion eithriadol, mae rhai sy'n werth hyd at £20,000 ar gael. Dyma raglen dreigl felly gellir gwneud cais ar unrhyw adeg, mae'r ymddiriedolaeth yn awyddus i gefnogi prosiectau sy'n gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mae'r ymddiriedolwyr yn cwrdd yn Ebrill a Hydref i ystyried ceisiadau.

### **Sefydliad John Ellerman**

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau mewn tri chategori – y Celfyddydau, Amgylchedd a Lles. Bydd grantiau amgylcheddol yn cyfrif am 25% o'r dyfarniadau. Bwriad y Sefydliad yw cyfrannu at fwy o gytgord rhwng pobl a'r blaned. Ymysg blaenoriaethau amgylcheddol mae rheoli cynefinoedd a gwarchod y moroedd. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried ceisiadau ar gyfer gwaith yn Nhaleithiau Tramor y DU. Mae'r broses ymgeisio'n digwydd mewn dau gam: mae cam un yn gofyn am ddisgrifiad byr o'ch sefydliad, crynodeb ariannol ac anghenion cyllido; os cewch eich gwahodd i gam dau, bydd gofyn gwneud cais llawn. Lleiafswm y grant ar gael yw £10,000; nid oes uchafswm penodol, ond prin y rhoddir grantiau dros £100,000.

### **Ymddiriedolaeth John Spedan Lewis**

Mae'r sefydliad yma yn cynnig grantiau i elusennau cofrestredig ar waith yn y DU. Mae'r cynllun yn cefnogi sefydliadau sy'n ymgymryd â phrosiectau gwarchod ac addysg amgylcheddol. Mae gan y sefydliad ddiddordeb arbennig mewn ceisiadau oddi wrth brosiectau sy'n ffocysu o gylch entomoleg, garddwriaeth ac adareg. Caiff y grantiau eu penderfynu gan yr ymddiriedolwyr ac maent fel arfer tua £3,000 a £6,000. Dylai prosiectau sy'n dymuno ceisio am arian e-bostio'r gronfa am fwy o fanylion - [jslf@johnlewis.co.uk](mailto:jslf@johnlewis.co.uk)

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree - Dyfodol Cynaliadwy**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofidio llawer am newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau, ac yn credu y bydd angen newid gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol hirdymor er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. O fewn y maes diddordeb hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau i amrywiaeth o sefydliadau ac i unigolion. Y ffocws cyfan o'r flaenoriaeth ariannu dyfodol cynaliadwy yw yn bennaf ar ddatblygu a hyrwyddo dewisiadau amgen cynaliadwy, carbon isel drwy helpu prosiectau sy'n: ymchwilio i 'economeg well', mynd i'r afael â 'phrynwriaeth' a helpu grwpiau ymylol a gweithredwyr ifanc i gael 'llais'. Mae JRCT fel arfer yn rhoi tua 100-120 o grantiau bob blwyddyn, gyda chyfanswm gwerth o tua £6m, gan roi grant cyfartalog nominal o £50,000. Dim ond ceisiadau a gyflwynwyd ar-lein y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu derbyn a'r dyddiadau cau nesaf yw:

**27 Mawrth 2017.**

### **Lennox and Wyfold Foundation**

Cwmni elusennol yw'r sefydliad hwn a grëwyd yn 2000. Mae'n cefnogi amrywiaeth eang o achosion elusennol gan gynnwys prosiectau sy'n perthyn i gategori'r amgylchedd. Fel arfer mae'r grantiau'n werth rhwng £5,000 a £10,000 ac maent ar gael i elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Croesewir ceisiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a chânt eu hasesu'n flynyddol. Dylid anfon gohebiaeth i: Martin Betts Lennox and Wyfold Foundation, RF Trustee Co. Limited, 15 Suffolk Street, London, SW1Y 4HG

### **Lloyds Bank Foundation for England and Wales**

Mae Sefydliad Banc Lloyds ar gyfer Cymru a Lloegr yn buddsoddi mewn elusennau sy'n rhoi cymorth i bobl dorri'n rhydd o anfantais ar adegau tyngedfennol yn eu bywydau. Ceir dwy brif raglen grant. Mae grantiau buddsoddi'n darparu cyllid craidd mwy hir dymor neu ddarpariaeth ariannu uniongyrchol i elusennau cymwys sy'n cyflawni canlyniadau clir oherwydd eu gwaith. Ceir grantiau rhwng £10,000 a £25,000 y flwyddyn am gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Gwobrwyir grantiau hwyluso ar gyfer elusennau sy'n gallu dangos anghenion datblygu clir. Ceir grantiau hyd

at £15,000 y flwyddyn dros gyfnod o flwyddyn neu ddwy flynedd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â [www.lloydsbankfoundation.org.uk](http://www.lloydsbankfoundation.org.uk)

### **Sefydliad yr Arglwydd Barnby**

Mae'r Sefydliad yn cynnig grantiau o £1,000 i £5,000 i sefydliadau elusennol a sefydliadau crefyddol at ddibenion elusennol cyffredinol, hybu iechyd neu arbed bywydau, anabledd, atal neu leddfu tlodi, anifeiliaid, yr amgylchedd, cadwraeth a threftadaeth. Gellir gwneud ceisiadau am gymorth unrhyw bryd a dylid eu gwneud yn ysgrifenedig i'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â disgrifiad byr o'r sefydliad a'r prosiect disgwylidig a chopi o gyfrifon mwyaf diweddar y sefydliad. Am ragor o fanylion anfonwch lythyr i PO Box 71, Plymstock, Plymouth, Devon PL8 2YP.

### **Potyn Elusen Lush**

Ariennir Potyn Elusen Lush gan Lush, y gwneuthurwr deunyddiau harddwch ffres, a wnaed â llaw. Bydd 100% o bris prynu'r eli dwylo a chorff (llai treth) yn mynd tuag at gefnogi achosion dyngarol, amgylcheddol a hawliau anifeiliaid yn y DU a ledled y byd. Rhoddir y rhan fwyaf o arian i grwpiau bychain, llawr gwlad, sy'n aml wedi'u lleoli orau i wneud gwahaniaeth go iawn ag adnoddau cyfyng, ac sy'n aml yn cael trafferth dod o hyd i gyllid. Gwerthir y Potyn Elusen mewn 35 gwlad ac yn ystod 2015 cododd £5.5 miliwn ar gyfer ymgyrchoedd llawr gwlad, gan gefnogi 1150 o grwpiau ledled y byd. Bydd cefnogaeth yn amrywio o rhai cannoedd o bunnoedd i uchafswm o £10,000 fesul prosiect. Y grant cyfartalog yw tua £4,000.

### **Sefydliad Elusennol Mercers**

Prif nod yr Elusen yw dyfarnu grantiau a rhoddion er budd ystod eang o ddibenion elusennol gan gynnwys lles, addysg, y celfyddydau, treftadaeth a chrefydd. Mae cadwraeth bywyd gwyllt/yr amgylchedd yn syrthio i'r categori treftadaeth ac felly caiff ceisiadau eu hystyried ar gyfer diogelu ac ymchwilio i'r canlynol: Rhywogaethau mewn perygl yn y DU; Ffawna a fflora a'u cynefin; Gerddi hanesyddol a manau agored; a Chadwraeth forol. Ystyrir ceisiadau o fewn y categori Treftadaeth o bob rhan o'r DU.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bedair thema: Chwaraeon, Y Celfyddydau, Y Gymuned a'r Amgylchedd. O dan thema'r Amgylchedd, mae'r Ymddiriedolaeth yn annog ceisiadau'n gysylltiedig ag ailgylchu, datblygu manau gwyrdd, datblygu a meithrin arferion gwyrdd a hybu'r defnydd o gynlluniau trafndiaeth gyhoeddus. Bydd prosiectau sy'n gwella ansawdd amgylchedd Cymru, yn gwarchod a chreu cefn gwlad fywiog ac yn datblygu a meithrin cynlluniau defnyddio tir cynaliadwy yn cael cefnogaeth yn gyntaf. Nod yr Ymddiriedolaeth yw ariannu rhaglenni sy'n gwarchod a gwella etifeddiaeth naturiol Cymru a meithrin defnydd a mwynhad cynaliadwy ohoni mewn modd sy'n cyfrannu at ffyniant economaidd a chynhwysiant cymdeithasol. **Dyddiad cau cyfredol ar gyfer grantiau rhanbarthol hyd at £7,500 yw 21 Gorffennaf 2017.**

### **The Naturesave Trust**

Sefydlwyd y Naturesave Trust yn 1995 i ariannu prosiectau cadwraeth ac amgylcheddol penodol ar draws y DU. Caiff 100% o'i arian oddi wrth breimiymau a gynhyrchwyd gan Yswiriant Naturesave Insurance, sy'n defnyddio'r diwydiant yswiriant fel dull dros ddatblygiad cynaliadwy.

Prif swyddogaeth yr Ymddiriedolaeth yw annog mabwysiadu mwy o ddatblygiad cynaliadwy yn enwedig o fewn cymunedau busnesau Bach a Chanolig (SME's).

Derbynia The Naturesave Trust geisiadau am ariannu oddi wrth sefydliadau, elusennau a chwmnïau sydd â'u gweithgareddau wedi eu seilio o fewn y DU. Caiff [ceisiadau](#) eu derbyn ar sail estyn ymlaen a rhoddir grantiau yn ôl pa mor dda mae'r gweithgaredd arfaethedig yn ffitio gydag amcanion a meini prawf yr Ymddiriedolaeth.

### **The Naturesave Trust - Grantiau Cymunedol Egni Adnewyddadwy**

Mae'r Naturesave Trust nawr yn gallu cynnig grantiau 'had yd' i gymunedau sy'n chwilio am ariannu ar gyfer blaengaredd egni cymunedol. Mae'r ymddiriedolaeth yn adnabod y gost drom o ddechrau'r fath brosiectau ac amharodrwydd benthycwyr traddodiadol i fenthyca arian am

brosiectau na fyddant yn mynd heibio'r cam cynllunio. Efallai byddai'r ymddiriedolaeth yn medru helpu'ch prosiect egni cymunedol gydag arian i ymgymryd â'r holl waith rhagarweiniol i'ch arwain i'r cam cynllunio ac yn bwysicach fyth i'r gymuned gadw cymaint o reolaeth ag sydd bosib dros yr incwm gweithredol unwaith bod y prosiect yn llwyddiannus. Os ydych chi wedi gosod neu wrthi'n gosod system ynni adnewyddol gymunedol, mae gan Yswiriant Naturesave **Gynllun Yswiriant Ynni Adnewyddol ar Raddfa Fechan** sy'n cynnig yswiriant fforddiadwy ar gyfer prosiectau solar PV, gwynt neu hydro hyd at 750kw. Os yw eich system dros 750kw, dylech edrych ar dudalen **Yswiriant Ynni Adnewyddol** i gael gwybodaeth am yr yswiriant y gall Naturesave ei ddarparu. Gall y ceisiadau am y ddwy gronfa gael eu gwneud ar-lein. Gall gwybodaeth bellach, canllawiau cais ac esiamplau o brosiectau eisoes wedi eu hariannu cael eu gweld ar wefan y **Naturesave Trust**.

### **Cronfa Fferm Wynt North Hoyle a Gwastadeddau'r Rhyl**

Bydd Cronfa Fferm Wynt North Hoyle/Gwastadeddau'r Rhyl yn buddsoddi dros £1.5 i mewn i brosiectau a gweithgareddau lleol am fywyd y fferm wynt. Mae'r gronfa o fudd i gymunedau Rhyl, Prestatyn a Meliden. Caiff y The North Hoyle Community Fund ei weinyddu gan Bartneriaethau Cymunedol Rhyl, Prestatyn & Meliden. Caiff pob cais eu derbyn a'u hystyried yn lleol. Yn ardal Rhyl mae'r rhain yn cael eu hystyried gan Bartneriaeth Gymunedol Rhyl. Mae ardaloedd Prestatyn a Meliden yn cael eu hystyried gan Bartneriaeth Gymunedol Prestatyn a Meliden.

Mae'n rhaid i bob prosiect ateb un o'r themâu a adnabyddir yng nghynlluniau ardal Prestatyn a Meliden a Rhyl. Rhoddir grantiau, fel arfer, i'r mwyafswm o £5,000 ac maent ar gael ar sail cais estyn ymlaen. Croesewir ceisiadau am brosiectau o natur cyfalaf oddi wrth grwpiau cymunedol a sefydledig gwirfoddol ffurfiol sydd yn gweithredu ym Mhrestatyn, Meliden neu Rhyl. Mae'r gronfa'n agor rhwng 1 Gorffennaf – 31 Awst bob blwyddyn. Meliden

([PMcommunitypartnership@outlook.com](mailto:PMcommunitypartnership@outlook.com)) neu'r Rhyl ([rhylcommunitypartnership@outlook.com](mailto:rhylcommunitypartnership@outlook.com))

### **Ymddiriedolaeth Oakdale**

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn sefydliad bach teuluol sy'n dosbarthu grantiau gwerth £250,000 bob blwyddyn. Mae grantiau'n amrywio o £250 i £2000 gyda chyfartaledd o tua £750. Mae ei feysydd o ddiddordeb yn cynnwys prosiectau cymdeithasol a chymunedol yng Nghymru a phrosiectau cadwraeth yr amgylchedd yng Nghymru. Gellir cyflwyno ceisiadau drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein (y ffordd a ffafir) neu gyflwyno cais drwy e-bost. Bydd yr ymddiriedolwyr yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn - ym mis Ebrill a mis Hydref i ystyried ceisiadau ac i ddyfarnu grantiau. Cynhelir cyfarfod nesaf yr ymddiriedolwyr ym mis **Ebrill 2017**.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Oakley**

Mae grantiau bach ar gael ar gyfer elusennau cofrestredig y DU, Guernsey a Jersey er mwyn cynnal gweithgareddau elusennol cyffredinol. Dyfernir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr a gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg. Mae grantiau blaenorol wedi bod rhwng £50 a £2,000. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 0121 427 7150 a dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig at Mr G Oakley, The Oakley Charitable Trust, 10 St Mary's Rd, Harborne, Birmingham, B17 0HA.

### **Sefydliad Ove Arup**

Elusen annibynnol yw Sefydliad Ove Arup, wedi ei sefydlu yn 1989 er cof am Syr Ove Arup, y peiriannydd, cynllunydd ac athronydd. Roedd Ove yn credu mewn cymhwysio dull cyfannol i gynllunio mewn peirianeg a phensaernïaeth - mae'r gronfa hon yn ymroddedig i hyrwyddo meddwl newydd mewn addysg a meithrin peirianeg o'r amgylchedd sydd eisoes wedi ei adeiladu. mae'r Sefydliad yn croesawu ceisiadau ar sail estyn ymlaen, am brosiectau sy'n dymuno hyrwyddo meddwl newydd a mentrau o fewn addysg ôl-raddedig ac israddedig mewn maes amlddisgyblaethol - yr amgylchedd wedi ei adeiladu.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol P & C Hickinbotham**

Mae grantiau rhwng £250 i £1000 ar gael i fudiadau elusennol yng ngogledd Cymru sy'n ymgymryd â gweithgareddau elusennol cyffredinol mewn meysydd sy'n cynnwys (ymhlith eraill) anabledd, amddifadedd cymdeithasol, digartrefedd, prosiectau diwylliannol, a'r amgylchedd. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gael y grant hwn, anfonwch e-bost at [roger@hickinbothamtrust.org.uk](mailto:roger@hickinbothamtrust.org.uk)

### **Rhaglen Grantiau Amgylcheddol Patagonia**

Mae Patagonia yn gwmni dillad ac offer awyr agored preifat Americanaidd sydd wedi'i leoli yn yr Unol Daleithiau ac sy'n gweithredu'n rhyngwladol mewn nifer o wledydd gwahanol, gan gynnwys y DU. Mae'n cynnig grantiau i grwpiau amgylcheddol dielw ar lawr gwlad yn y gwledydd y mae'n gweithio ynddynt. Dim ond gwaith amgylcheddol a ariennir gan Patagonia. Ei ddiddordeb pennaf yw dyfarnu grantiau i sefydliadau sy'n nodi ac yn gweithio ar achosion sylfaenol problemau amgylcheddol ac sy'n mynd i'r afael â materion gydag ymrwymiad i newid hirdymor. Mae dwy brif rownd gyllid bob blwyddyn ar gyfer grantiau o hyd at \$12,000 USD, gyda dyddiadau cau ar ddiwedd mis Ebrill a mis Awst. Ni fydd yn ariannu cynadleddau neu brosiectau adeiladu gwyrdd.

### **Ymddiriedolaeth Cod Post (Postcode Trust)**

Mae Ymddiriedolaeth Cod Post Lleol y gofyn am geisiadau oddi wrth gymdeithasau ac elusennau sy'n gefnogol i'r prosiectau hynny sydd o bwysigrwydd lleol i ardaloedd ar draws Prydain.

Ceir tair ymddiriedolaeth neilltuol sy'n barod i dderbyn ceisiadau.

- Bydd Ymddiriedolaeth Cod Post y Bobl yn canolbwyntio ar atal tloedi, hyrwyddo hawliau dynol, hawliau cyfartal a datrys gwrthdaro
- Bydd Ymddiriedolaeth Cod Post Lleol yn cefnogi ardaloedd bywyd gwyllt, cynlluniau cynaliadwy, mannau lleol tu mewn a thu allan a rhaglenni dinasyddiaeth (gwirfoddol). Bydd Ymddiriedolaeth Cod Post Cymunedol yn canolbwyntio ar chwaraeon gwerin gwlad, rhaglenni celfyddydol a hamdden a chynlluniau byw'n iach sy'n gwella iechyd meddwl a chorfforol cymunedau.

Yn berthnasol i Gymru – gall elusennau, os ydynt wedi'u cofrestru, wneud cais am hyd at £10,000. Os nad oes ganddynt rif elusen ond bod ganddynt gyfansoddiad/gyfrif banc yn enw eu cymdeithas, gallant wneud cais am hyd at £2,000.

Gellir cael manylion rhaglen 2017 ar lein. Cynghorir ymgeiswyr i dalu sylw manwl i'r canllawiau ar gael ar y wefan.

### **Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl**

Mae Ymddiriedolaeth y Bobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl yn croesawu ceisiadau oddi wrth gymdeithasau cadwraethol gwirfoddol am gefnogaeth ariannol ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chadwraeth mamaliaid. Mae meysydd gwaith derbynol ar gyfer ariannu yn cynnwys ymchwil wyddonol, gwaith ymarferol rheoli cynefinoedd, rhaglenni ail-sefydlu a monitro a phrosiectau addysgol. Mae tair ffordd wahanol o ariannu ar gael: Grant mamaliaid y DU, Meini prawf byd-eang a Meini prawf interniaeth. Tua £15,000 yw'r grantiau cyfartalog ar gyfer bob prosiect. Hydref 2017 fydd terfyn amser y ceisiadau nesaf ar gyfer grant mamaliaid y DU a bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried mewn cyfarfod ar 29 Tachwedd. Mae'r grant Interniaeth bellach ar agor i ymgeiswyr. Mae cyllid hyd at £5,000 ar gael i gefnogi cadwraethwr dan hyfforddiant yn gweithio ar brosiect penodol am hyd at 18 mis – mae'r arian ar gyfer costau'r prosiect, costau byw ac yswiriant. Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am y grant mewnwelediad cadwraeth byd-eang nesaf fydd Chwefror 2018.

### **Pencampwyr Cymunedol Persimmon**

Mae tai Persimmon yn cynnig grantiau ar gyfer grwpiau cymunedol hyd at £1,000. Gwnaed rhoddion yn y gorffennol ar gyfer gweithgareddau megis banc bwyd a gardd ysgol. Lanswyd y gronfa ym mis Mawrth 2015 ac mae bellach wedi rhoi £1 miliwn i grwpiau lleol ac elusennau ar draws Prydain. Bydd grwpiau'n gwneud cais am arian ar y ffurflen gais ar lein, gan roi manylion ynglŷn â'r arian a godwyd eisoes, a faint yr hoffech chi ei dderbyn gan y cynllun pencampwyr cymunedol. Mae cynllun Pencampwyr Cymunedol Persimmon ar agor i dderbyn ceisiadau'n barhaol.

### **PF Charitable Trust**

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth yn 1951 gan y bancwr Philip Fleming. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys datblygiad o amddiffyniad amgylcheddol a gwelliant. Mae elusennau sy'n gofrestredig yn y DU yn gymwys i wneud cais. Gall ymholiadau

cyffredinol eu gwneud drwy ffonio 020 3696 6721 ac mae ceisiadau i'w gwneud drwy'r post. Mae'r Ymddiriedolwyr fel arfer yn cyfarfod yn fisol i adolygu ceisiadau newydd ac i wobrwyo grantiau.

### **Peter Samuel Charitable Trust**

Mae'r grant ymddiriedolaeth yma ar gyfer y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol sydd yn ymgymryd â phrosiectau i wella ansawdd bywyd a'r amgylchedd yn y DU. Ardaloedd o ddiddordeb penodol yw treftadaeth, coedwigoedd ac adferiad tir. Mae'r terfyn grant yn ddewisol. Anfonwch e-bost at [kate@farleyfarms.co.uk](mailto:kate@farleyfarms.co.uk)

### **The Plunkett Foundation**

Mae'r Sefydliad yn rhoi cymorth penodedig i gymunedau gwledig yn bennaf sy'n ystyried sefydlu a rhedeg amrywiaeth o gwmnïau cydweithredol sy'n eiddo i'r gymuned. Mae'n darparu cymorth dros y ffôn ac mae ganddo rwydwaith o ymgynghorwyr, mentoriaid ac arbenigwyr ledled y DU. Mae hefyd yn darparu amrywiaeth o becynnau cymorth, adnoddau a gwybodaeth sydd ar gael ar-lein er mwyn cynorthwyo cymunedau, ni waeth lle maent wedi'u lleoli, trwy bob cam o'r broses. Weithiau mae ganddo gyllideb ar gael ar gyfer cymunedau hefyd. Gellir cysylltu â'r sefydliad unrhyw bryd i drafod a ydych chi'n gymwys.

### **Sefydliad Elusennol Polden Puckham**

Mae Sefydliad Elusennol Polden Puckham yn ymddiriedolaeth sy'n rhoi grantiau â'i wreiddiau mewn teulu o Grynwyr. Mae'n ariannu sefydliadau yn y DU sy'n gweithio ar ddyllanwadu ar bolisïau, agweddau a gwerthoedd ar lefel cenedlaethol neu ryngwladol, gan gynnwys gwaith sy'n cyfeirio at y pwysau a'r amgylchiadau sy'n creu perygl o fethiant amgylcheddol byd-eang. Mae'r Sefydliad yn rhoi ystyriaeth arbennig i gyrrff pencadlys arloesol bychain. Mae'r grantiau rhwng £5,000 a £15,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd, fel arfer, ac mae'r grant yn cefnogi cyrrff ble byddai'r swm yma'n cynrychioli rhwng 5% a 50% o'u hincwm blyneddol. Bydd y Cyfarwyddwyr fel arfer yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, yn y gwanwyn a'r hydref. Bydd y terfyn amser nesaf yn cael ei gyhoeddi ar lein yn ystod y misoedd nesaf.

### **Cronfa Cymunedol Porth Aberdaugleddau**

Mae cronfa Porth Cymunedol Aberdaugleddau yn cynnig cefnogaeth ariannol i elusennau, sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau cymunedol a mentrau cymdeithasol sydd yn gweithio o fewn Sir Benfro. Drwy'r gronfa yma, mae'r Porth yn awyddus iawn i noddi prosiectau a digwyddiadau sydd â'u fwriadau o gynnal diogelwch ar y ddyfrffordd; yn gwarchod yr amgylchedd a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â phrosiectau a digwyddiadau sy'n cefnogi amcanion a gwerthoedd y Porth. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais fesul y ddolen-we.

### **Cronfa Garbon British Airways**

Mae Cronfa Garbon British Airways yn cefnogi prosiectau egni adnewyddol ac egni effeithlon yn y gymuned ar draws Prydain. Mae'n gynllun gwirfoddol ar gyfer cwsmeriaid British Airways sy'n dymuno trafelio'n gyfrifol a lleihau effaith eu siwrnai. Mae Pure Leapfrog yn rheoli arian a roddir ar ran British Airways ac mae'r ddau sefydliad yn cydweithio i ddod o hyd i brosiectau cymunedol addas sydd nid yn unig yn lleihau allyriadau carbon ond sydd hefyd yn cyflenwi effaith gymdeithasol gryf i gymunedau. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan Pure Leapfrog.

### **Ymddiriedolaeth Radcliffe**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Radcliffe yn 1714 fel ymddiriedolaeth elusennol o dan ewyllys Dr John Radcliffe, y meddyg mwyaf blaenllaw ei oes. Mae elusennau cofrestredig, sefydliadau eithriedig a sefydliadau dielw a leolir yn y DU yn gymwys i wneud cais am arian, sydd rhwng £1,000 a £5,000 yn gyffredinol. Mae Ymddiriedolaeth Radcliffe yn cefnogi datblygiad y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sy'n ategu sectorau treftadaeth ddiwylliannol a chrefftau traddodiadol y DU. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer: hyfforddiant crefft a chadwraeth; prosiectau ymarferol, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys elfen hyfforddiant cryf; prosiectau strategol a phrosiectau adeiladu capasiti sy'n dangos buddiannau clir ar gyfer y sector; prosiectau anghenion arbennig sy'n pwysleisio datblygu sgiliau. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ymroddedig o ran rhoi grantiau



hyblyg, agored, a chynhwysfawr, a bydd yn ystyried prosiectau eraill, os byddant yn disgyn yn fras o fewn ei chylch gwaith. Mae Ymddiriedolaeth Radcliffe yn dymuno hybu safonau rhagoriaeth ledled yr holl gymorth a gynigir ganddi. **Dyddiadau cau treftadaeth a chreffft blynyddol: 31 Gorffennaf**

### **Ymddiriedolaeth Rhododendron**

Mae'r Ymddiriedolaeth Rhododendron yn ymddiriedolaeth elusennol deuluol fach sy'n rhoi grantiau i elusennau cofrestredig yn y DU. Diben yr arian yw cefnogi prosiectau lles cymdeithasol a chymorth dyngarol yn y byd datblygol a'r DU. Mae hefyd yn cefnogi rhai prosiectau diwylliannol a bywyd gwyllt. Mae fel arfer yn rhoi blaenoriaeth i elusennau bach yn hytrach na rhai mwy. Mae gan yr ymddiriedolaeth gyllideb flynyddol o ryw £50,000 ar gyfer grantiau. Mae grantiau ar gyfer £500 neu £1,000 ar gael. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd a byddant yn cael eu hystyried unwaith y flwyddyn (fel arfer ym mis Chwefror neu fis Mawrth). Cliciwch fan yma i gael manylion cyswllt.

### **Ymddiriedolaeth Elusennol Samuel William Farmer**

Diben y cynllun yw cefnogi sefydliadau sy'n ymgymryd â phrosiectau o fewn themâu megis bywyd gwyllt a chadwraeth. Dyfernir yr arian yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Mae grantiau blaenorol wedi bod rhwng £1,000 a £27,600. Nid oes gan Ymddiriedolaeth Samuel William Farmer wefan na chyfeiriad e-bost. Gall ymgeiswyr gyflwyno cais ar unrhyw adeg ac mae'r ymddiriedolwyr yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Dylai ymgeiswyr gysylltu ag Ymddiriedolaeth Samuel William Farmer i gael rhagor o wybodaeth ar 01380 813299.

### **Grantiau Discovery Santander**

Mae cynllun y Grantiau Darganfyddiad yn cael ei ddarparu gan Sefydliad Santander. Mae'r Grant Darganfod yn cyfuno'r hen gynlluniau grant 'Y Gymuned a Mwy', 'Dysgu a Thyfu' a 'Sgiliau Ariannol' i un rhaglen gyllido newydd. Gall elusennau cofrestredig y DU, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol ac Undebau Credyd gyda phrosiectau lleol sy'n gwella sgiliau wneud cais am grant am hyd at £5,000.

**Derbynnir ceisiadau ar unrhyw adeg.**

### **Rhaglen Cronfa Gymunedol Sainsbury yng Nghymru**

Mae grantiau ar gael i grwpiau cymunedol, elusennau cofrestredig, mentrau cymdeithasol a grwpiau dielw eraill yng Nghymru ar gyfer prosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sy'n unol â gwerthoedd Sainsbury, sef bwyd, teulu, plant ac iechyd. Uchafswm y grant sydd ar gael yw £500. Mae'r arian ar gyfer prosiectau, gwasanaethau, gweithgareddau neu offer gan gynnwys ar gyfer parciau bywyd gwyllt, prosiectau cadwraeth, gweithgareddau glanhau ac ati. Rhedir y prosiect bellach drwy siopau Sainsbury. Dylai grwpiau sy'n dymuno cyflwyno cais fynd at eu siop leol i gael manylion.

### **Rhaglen Grant Sea-Changers**

Nod y Rhaglen yw hyrwyddo'r gwaith o warchod, diogelu a gwella'r amgylchedd morol ffisegol a naturiol a hyrwyddo bioamrywiaeth morol. Grantiau unigryw sy'n werth hyd at £500 ar gael ac yn eithriadol, gellir ystyried rhai sy'n werth hyd at £1,000, ar gyfer elusennau cadwraeth forol a sefydliadau sy'n cynnal prosiectau a leolir yn y DU. Bydd Sea-Changers yn dyrannu cyllid bob chwe mis. Rhaid i'r prosiectau gael eu cynnal yn y DU ac ymdrin ag un o'r meysydd canlynol: Gwarchodfeydd morol neu ardaloedd morol gwarchodedig; Gwaith glanhau morol uniongyrchol; Addysg, ymgyrchu ac ymwybyddiaeth; Diogelu rhywogaethau ac ymchwilio iddynt. Ffefrir prosiectau arloesol

### **Cronfa Twf Busnesau Cymdeithasol – cyllid benthyciad gan Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru, CGGC**

Mae benthyciadau o £1,000 i £250,000 ar gael ar gyfer busnesau cymdeithasol corfforedig addas ac elusennau sydd yn gallu arddangos eu gallu i ad-dalu. Dim ond nifer fechan o gyfyngiadau sydd ar sut gall yr arian ei ddefnyddio ond fel arfer mae benthyciadau ar gyfer prynu ased, yn cynnwys egni cymunedol, neu weithgareddau sydd yn generadu incwm drwy sefydliad/ehangiad.

### **Ymddiriedolaeth Arddwriaethol Stanley Smith**

Mae grantiau ar gael i gefnogi addysg arddwriaethol; i hybu ymchwil i arddwriaeth mewn unrhyw gangen o arddwriaeth, a chyhoeddi'r canlyniadau o ymchwil o'r fath; i gynorthwyo gyda'r gwaith o greu, datblygu, gwarchod a chynnal a chadw gerddi cyhoeddus; i hybu amaethiad a dosbarthiad eang o blanhigion sy'n werthfawr i ddynolryw; i hybu ac amaethu planhigion newydd; ac i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyhoeddi llyfrau neu weithiau eraill sy'n ymwneud â gwyddoniaeth neu arddwriaeth. Mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau sydd o bwys i arddwriaeth, garddio neu fotaneg gydag elfen arddwriaeth gref. Mae'n bwysig bod y prosiect yn canolbwyntio ar arddwriaeth ac nad yw garddwriaeth yn cael ei weld fel rhyw ychwanegiad i brosiect a gynigwyd eisoes.

Mae prosiectau nodweddiadol fel a ganlyn:

- Cynlluniau hyfforddi garddwyr a redir gan sefydliadau priodol (ond nid ar gyfer unigolion)
- Adfer gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol
- Datblygu gerddi newydd ar gyfer mynediad a mwynhad y cyhoedd
- Arddangosfeydd, cyhoeddi llyfrau, ymchwil a rhaglenni addysgol sy'n ymwneud â garddwriaeth
- Alldeithiau i gasglu ac amddiffyn planhigion sydd o werth gwyddonol ac arddwrol
- Ymweliadau astudio gan arddwriaethwyr neu fotanegwyr gyda chysylltiadau garddwriaethol cryf.

**Dylid cyflwyno ceisiadau ymhell cyn y dyddiad cau, sef 15 Chwefror a 15 Awst bob blwyddyn.**

### **Tesco Bags of Help – Cynllun grantiau cymunedol Tesco**

Mae grwpiau cymunedol ar draws y DU yn cael eu gwahodd i wneud cais am gyllid gan Bagiau Tesco i ganiatáu mwy o gymunedau i gael rhywfaint o arian ar gyfer eu prosiect. Yn ogystal â pharhau i ariannu ddatblygiadau o a gweithgareddau mewn mannau awyr agored fel gerddi cymunedol a rhandiroedd, bydd y grantiau yn awr ar gael i brynu eitemau megis dillad chwaraeon, offer gwersylla, rhawiau, casglwyr sbwriel neu offer meddygol arbenigol. Mae cyllid ar gael ar gyfer gwelliannau i adeiladau cymunedol, er enghraifft eglwys neu neuadd bentref neu ystafelloedd newid chwaraeon. Gall grwpiau sy'n chwilio i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau tymhorol fel goleuadau Nadolig hefyd wneud cais am gyllid drwy'r rhaglen. Dim ond rai enghreifftiau o brosiectau sydd bellach yn gymwys yw'r hein, fydd y golau gwyrdd yn cael ei roi i lawer o gynlluniau eraill sy'n bodloni nodau ac amcanion y rhaglen ariannu prosiectau a fydd o fudd i'r gymuned leol. Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn lleol, mae nifer y prosiectau a ariennir bob deufis wedi cael ei gynyddu ac mae symiau ariannu newydd - gyda £ 4,000, £ 2,000 a £ 1,000 i'w hennill. Ers lansio ym mis Hydref 2015 cynllun wedi dyfarnu dros 27 miliwn i fwy na 3500 o grwpiau cymunedol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

I drafod syniad am brosiect neu am fwy o gymorth cysylltwch â Geraint Hughes yn Groundwork Gogledd Cymru ar 01978 757524 neu e-bostiwch geraint.hughes@groundworknorthwales.org.uk

### **The Tudor Trust**

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn un annibynnol sy'n rhoi grantiau i helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio mewn unrhyw ran o'r DU. Mae'r Ymddiriedolaeth am helpu grwpiau llai, dan arweiniad y gymuned sy'n helpu pobl ar ymylon cymdeithas. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw raglenni ariannu penodol, ac mae'n well ganddi fod y grwpiau y mae'n eu helpu yn arwain yr agenda. Mae'n fwy tebygol o ariannu grwpiau sydd â throsiant blynyddol o lai nag £1 miliwn, er y gellir dyfarnu grantiau i grwpiau mwy, yn enwedig ar gyfer gwaith a allai fod yn ddylanwadol, neu waith na fyddai gan sefydliad llai'r capasiti i'w gyflawni. Mae hon yn broses gwneud cais mewn dau gam.

### **Ymddiriedolaeth Wakeham**

Rhedir Ymddiriedolaeth Wakeham gan wirfoddolwyr. Mae'n hoffi helpu grwpiau gweithredu cymunedol blaengar sy'n rhy fach, yn rhy ddadleuol neu'n rhy newydd i gael cyllid gan elusennau o'r brif ffrwd. Nid yw fel arfer yn helpu prosiectau ble bydd staff yn derbyn cyflog na'n helpu gyda phrynu cerbydau na gwella neu brynu adeiladau. Fel arfer, mae'n rhoi grantiau bach iawn oddeutu £100 i £500. Mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn gwirfoddolwyr sy'n dod ynghyd i helpu eraill.

Nid yw'n cefnogi myfyrwyr blwyddyn bwlch nac yn rhoi ysgoloriaethau, er ei fod wedi rhoi grantiau i sefydliadau addysgol yn achlysurol, i gynorthwyo â rhaglenni ysgoloriaeth. Y ffordd orau o gyflwyno cais yw ar lein.

### **Sefydliad Waterloo**

Prosiectau sy'n helpu yn fyd-eang, yn enwedig ym meysydd anghyfartaledd cyfleoedd a chyfoeth a'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol y byd y mae gan y Sefydliad annibynnol hwn sy'n rhoi grantiau y diddordeb pennaf ynddynt. Mae'n blaenoriaethau ariannu ar gyfer elusennau wedi eu seilio yn y DU, nifer ohonyn nhw sydd yn gweithio mewn partneriaeth glos gydag NGO's lleol llai o faint sydd wedi eu seilio yn y gwledydd ble maent yn gweithredu. Mae gan y gronfa Amgylchedd ddwy brif thema:

- Morol - cefnogi prosiectau sydd yn gweithio tuag at roi stop i stociau pysgod sydd yn dirywio.
- Fforestydd Trofannol - cefnogaeth ar gyfer prosiectau sydd yn gwarchod fforestydd trofannol, yn bennaf drwy osgoi datgoedwigo. Mae dau ddyddiad cau ar gyfer pob thema bob blwyddyn. Gall grantiau unigryw neu grantiau aml-flwyddyn eu gwobrwyo, y mwyafrif a fydd yn **gyfanswm** o £50,000 - £100,000. Ni yw'r gronfa yn cefnogi prosiectau sydd yn ffocysu ar addysg amgylcheddol neu'r rheiny gyda chadwraeth anifeiliaid fel eu hunig ffocws

### **Waitrose Community Matters**

Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfle i gwsmeriaid pob cangen i rannu £1,000 (neu £500 mewn siopau cyfleustra) rhwng tri achos da lleol bob mis – megis sefydliadau lles, grwpiau cymunedol, ysgolion neu ganghennau lleol o elusennau cenedlaethol. Ers ei lansio yn 2008, mae Waitrose wedi rhoi dros £25 miliwn i gefnogi dros 72,000 o elusennau lleol, achosion da a changhennau lleol o elusennau cenedlaethol sy'n hunan-ariannu ac sy'n meddu ar eu cyfrif banc eu hunain. Dan y cynllun, bydd cwsmeriaid yn enwebu sefydliadau, a chaiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan fforymau PartnerVoice (cyrff democrataidd lleol Waitrose). Mae Waitrose.com hefyd yn caniatâu i siopwyr ar lein rannu rhodd o £25,000 rhwng 3 achos cenedlaethol. Croesewir ceisiadau gan elusennau cenedlaethol ar gyfer y cynllun ar lein hwn.

### **Wilkinsons – Helping Hands**

Menter gymunedol newydd gan Wilkinsons, un o siopau'r stryd fawr, yw Helping Hands. Mae pob siop leol wedi cael cyllideb i'w dosbarthu i brosiectau a chynlluniau yn y gymuned leol ac mae ceisiadau'n cael eu hystyried bob mis.

### **Sefydliad Woodroffe Benton**

Mae Sefydliad Woodroffe Benton yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi grantiau. Mae grantiau bach rhwng £250 a £2,500 ar gael mewn pedwar categori, ac un ohonynt yw 'Cadw/Gwarchod/Amddiffyn/Gwelliant – yn enwedig ble byddai hyn yn annog darpariaeth mynediad i aelodau o'r cyhoedd. Mae elusennau cofrestredig a sefydliadau addysgiadol yn gymwys i wneud cais.

## **Llywodraeth Ganolog a Chyllid Ewropeaidd**

### **Cynhwysiant Hyfyw**

Cefnogir Cynhwysiant Hyfyw gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ac mae'n cael ei rhedeg gan WCVA ar ran WEFO. Bwriad yr arian yw tacio tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru drwy ddarparu cyllid grant ar gyfer prosiectau hyd at £400,000 (gan gynnwys arian cyfatebol) sy'n cynorthwyo pobl economaidd anweithgar a'r di-waith hirdymor i gael sgiliau a chymwysterau ar gyfer y gweithle drwy gyfrwng lleoliadau gwaith a gefnogir â thâl a gweithgareddau ymarferol. Nid oes rhagosodiad ynghylch y math o weithgareddau, neu gyflogaeth gefnogol os dewisir yr opsiwn hwnnw, a lle derbynnydd y grant yw penderfynu beth fyddai'n gweddu orau i'w haelodau, gan gynnwys prosiectau neu waith â ffocws amgylcheddol iddo. Gall sefydliadau wneud cais ar lein drwy e-tenderwales i ddod yn fuddiolwr cymeradwy o'r Gronfa Gynhwysiant Hyfyw: unwaith y

byddan nhw wedi llwyddo, cânt eu gwahodd i geisio am rowndiau grant a chânt hefyd wybod am gyfleoedd ariannu sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru.

### **Rhaglen LEADER yng Nghymru**

Mae wedi datblygu drwy nifer o gyfnodau gwahanol o Raglenni a chaiff ei gynnwys yn 'Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygiad Gwledig 2014-2020' Llywodraeth Cymru gyda'r potensial i gefnogi'r chwe chynnig gan Blaenoriaethau Datblygu Gwledig. Mae dull o weithredu'r LEADER yn golygu grymuso lleol drwy ddatblygu strategaeth leol a dosbarthiad adnoddau. Y prif arf ar gyfer cais ar gyfer y dull yma o weithredu datblygiad ardal a chynnwys cynrychiolwyr wrth wneud penderfyniadau ydy Grŵp Gweithredu Lleol y LEADER (LAG). Math o Ddatblygiad Lleol yn cael ei redeg gan y Gymuned yw LEADER (CLLD). Drwy broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynyddu gallu grwpiau targed a chyd-weithio mae problemau a wynebir a'r cyfleoedd sydd ar gael i ardal yn cael eu hadnabod ac atebion posibl yn cael eu peilotio. Ceir Grŵp Gweithredu Cymunedol ym mhob Ardal Awdurdod Lleol. Cewch fwy o wybodaeth am gyllid sydd ar gael yn eich ardal chi yma.

### **Grantiau Cadw**

Mae Cadw'n gweithredu rhaglen grantiau i gyfrannu at gostau trwsio ac adnewyddu asedau hanesyddol (fel arfer nid yw'n fwy na 30% o'r gwaith sy'n gymwys). Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n ymwneud ag asedau dan fygythiad a / neu rai syn cynnwys deilliannau cynaliadwy e.e. darparu mynediad i'r cyhoedd, hyfforddi, gweithgareddau addysgol, adfywio / aildefnyddio adeilad. Mae grantiau ar gael i drwsio ac adfer adeiladau hanesyddol sy'n cynnwys diddordeb pensaernïol neu hanesyddol o bwys ac ar gyfer gwaith i henebion rhestredig. Bydd Cadw'n gweithio mewn partneriaeth â chyllidwyr eraill yn aml er mwyn sicrhau diogelwch amgylchedd hanesyddol Cymru. Fodd bynnag, ni wahoddir ceisiadau am grantiau newydd ar hyn o bryd gan fod Cadw'n blaenoriaethu'r adnoddau ar gyfer y prosiectau hynny sydd eisoes wedi cael cynigion.

### **Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gronfa grant cyfalaf ar gyfer Cymru gyfan a ddisodlodd y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (RhCGC) flaenorol yn 2014. Mae'n cynnig grantiau sy'n werth hyd at £500,000 i ddarparu neu wella cyfleusterau cymunedol sydd yn eu tro yn darparu gwasanaethau cymunedol hollbwysig i atal neu fynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau. Rhaid i geisiadau gael eu harwain gan y gymuned a chael eu datblygu mewn partneriaeth â phartneriaid yn y sectorau cymunedol, cyhoeddus a phreifat. Mae'r gwaith o gyd-leoli sefydliadau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu cynaliadwyedd cymunedol yn cael ei annog. Byddwch mor garedig ag e-bostio eich datganiadau diddordeb cyflawn i: [communityfacilitiesproghelp@wales.gsi.gov.uk](mailto:communityfacilitiesproghelp@wales.gsi.gov.uk) Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd.

### **Horizon 2020**

Horizon 2020 yw rhaglen newydd yr UE am ymchwil ac arloesedd a fydd yn rhedeg o 2014-2020. Mae wedi ei rannu i 3 adran:

- Gwyddoniaeth Wych
- Arweinyddiaeth Ddiwydiannol
- Heriau Cymdeithasol

Caiff y themâu yma eu torri i lawr i bynciau.

Mae amryw alwadau cam-sengl a dau-gam yn agored ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth cyngor a chefnogaeth i sefydliadau Cymraeg sy'n edrych am arian oddi wrth UE. Am wybodaeth bellach cysylltwch gydag Uned Horizon 2020: [Horizon2020@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Horizon2020@Wales.gsi.gov.uk)

### **Horizon 2020 – Heriau Cymdeithasol – Gweithred Hinsawdd, Amgylchedd, Effeithiolrwydd Adnodd a Deunydd Crai**

Amcanion Her Gymdeithasol y testun 'Gweithredu ar hinsawdd, amgylchedd effeithiolrwydd adnoddau a deunyddiau crai' yw cael economi a chymdeithas sy'n defnyddio adnoddau - a dŵr – yn effeithiol a gwynwch rhag newid hinsawdd, amddiffyn a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ac ecosystemau, a chyflenwad cynaliadwy a'r defnydd o ddeunydd crai, er mwyn cwrdd ag

anghenion y boblogaeth byd eang sy'n tyfu o fewn terfynau cynaliadwy o adnoddau naturiol y blaned ac ecosystemau.

### **CALL – H2020-SC5-2016-2017 – Gwyrddlasu'r Economi**

Mae gan y Call amcan cyfanl o gymryd dull systematig i symud tuag at economi mwy adnodd effeithiol, yn fwy gwyrdd a mwy cystadleuol, ac yn ateb i adrannau blaenllaw o wasanaethau hinsawdd a symud ymlaen tuag at Ewrop carbon isel, datrysiadau ar sail natur ar gyfer gwytnwch tiriogaethol, dŵr, deunydd crai, arsylwad Daear a threftadaeth diwylliannol er mwyn twf cynaliadwy. Mae nifer o alwadau sydd yn ffocysu ar 'wyrddlasu'r economi' a phob galwad yn ateb her penodol. Gall rhaglenni o waith gael eu lawrlwytho yma, gellir cael dyddiadau cau yn y lawrlwythiad, ond maent yn gallu newid.

H2020-IND-CE-2016/17 'Industry 2020 in the Circular Economy' (ar arloesi ecolegol)

H2020-SCC-2016/17 'Smart and Sustainable Cities' (ar ddinasoedd cynaliadwy drwy ddatrysiadau ar sail natur)

H2020-BG-2016-2017 'Blue growth – demonstrating an ocean of opportunities' (ar yr Arctig)

H2020-SFS-2016-2017 'Sustainable Food Security – Resilient and resource-efficient value chains' (ar Earth Observation for Africa)

H2020-LCE-2016-2017 'Competitive low-carbon energy' (ar wyddorau daear cymhwysol)

H2020-SMEInst-2016-2017 – Galwad Offeryn Busnesau Bach a Chanolig

Marie Skłodowska-Curie Actions – rhaglen ymchwil gymrodoriaeth (gan gynnwys cymrodoriaethau y tu allan i'r byd academaidd)

### **Interreg – Cydweithio Rhanbarthol yn Ewrop 2014-2020**

Mae INTERREG yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau cydweithio ar draws Ewrop. Gall prosiectau partneriaeth sy'n cynnwys sefydliadau o bob rhan o Ewrop wneud cais am alwadau agored sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth a throsglwyddo profiad er mwyn gwella polisi rhanbarthol. Ceir tri llinyn i'r rhaglen:

- INTEREGG VA – cydweithredu ar draws ffiniau
- INTERREG VB – cydweithredu rhyng-genedlaethol
- INTERREG VC – cydweithredu rhyng-ranbarthol

Y themâu ar gyfer cyfnod rhaglennu 2014-2020 yw:

- Ymchwil a Menter
- Cystadleurwydd Mentrau Bach a Chanolig
- Economi carbon isel – mae'r thema hon yn ymwneud â thrawsnewid i economi carbon isel ymhob sector. Gallai hynny ddigwydd drwy bolisiâu a fwriadwyd i godi cyfran y ffynonellau ynni adnewyddol yn y gymysgfa ynni er mwyn hybu trafndiaeth gynaliadwy aml-ddull e.e. datblygu strategaethau carbon isel rhanbarthol
- Effeithlonrwydd amgylchedd ac adnodd – mae dau faes penodol ar gael ar gyfer cydweithredu
  - gwarchod a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol e.e. gwella rheolaeth parciau natur rhanbarthol
  - symud i economi sy'n effeithlon o ran adnoddau, hybu twf gwyrdd ac eco-fenter e.e. cynyddu cyfraddau ailgylchu ymysg Mentrau Bach a Chanolig.

Mae'r rhaglenni hyn bellach yn weithredol, a gwnaed galwadau'n barod; felly os oes gan eich sefydliad syniad am brosiect, a bod gennych y capasiti i ddarparu prosiect partneriaeth – yna cadwch lygad ar wefan Interreg Ewrop ar gyfer cylchoedd ariannu sy'n cael eu rhyddhau. Gall sefydliadau'r drydedd sector gysylltu â [3set@wcva.org.uk](mailto:3set@wcva.org.uk) i gael cefnogaeth wrth ddatblygu cynnig am brosiect.

### **Rhaglen LIFE**

Rhaglen LIFE yw offeryn ariannol Comisiwn Ewrop ar gyfer cefnogi prosiectau'r amgylchedd a chadwraeth byd natur ledled yr UE. Amcan cyffredinol y gronfa yw cyfrannu at weithredu a

datblygu polisi a deddfwriaeth amgylcheddol a hinsawdd yr UE. Rhennir y rhaglen yn ddwy is-raglen – Amgylchedd a Gweithredu ar Hinsawdd.

Mae'r is-raglen Amgylchedd yn delio â thri maes blaenoriaeth:

- Mae prosiectau Natur a Bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar weithredu'r Cyfarwyddyd Adar a Chynefinoedd a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE;
- mae prosiectau Amgylchedd ac Effeithiolrwydd Adnoddau'n canolbwyntio ar dreialu, datblygu a dangos dulliau ac atebion i heriau amgylcheddol ar draws yr UE; ac
- mae prosiectau Llywodraethiant a Gwybodaeth Amgylcheddol yn canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth a'i rhannu.

Mae'r is-raglen Hinsawdd yn ymwneud â'r tair blaenoriaeth hon:

- Prosiectau Addasu Hinsawdd sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwytnwch yn wyneb newid hinsawdd;
- Prosiectau Lleihau Effaith Hinsawdd sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau nwy tŷ-gwydr; a
- Llywodraethiant a Gwybodaeth Hinsawdd sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'r hinsawdd, a rhannu'r wybodaeth honno.

Yn unol â llythyr y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 12 Awst ynglŷn â dyfodol cyllid yr UE, bydd sefydliadau yn y DU sy'n gwneud cais uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar sail gystadleuol ar gyfer cronfeydd LIFE yr UE yn derbyn gwarant ar gyfer taliadau o'r math gan y Trysorlys, hyd yn oed pan fydd prosiectau penodol yn parhau y tu hwnt i ymadawiad y DU o'r UE. Golyga hyn fod sefydliadau'r DU yn derbyn gwarant y bydd unrhyw rai o'r grantiau o gronfeydd LIFE yr UE a ddyfernir pan fo'r DU yn parhau i fod yn aelod-wladwriaeth yn parhau drwy gydol eu prosiectau.

Disgwylir y bydd yr alwad ar gyfer 2017 yn agor ym mis Ebrill/Mai a rhagwelir bydd y dyddiad cau ym mis Medi (gall yr amserau hyn newid) caiff hyn ei gadarnhau 28 Ebrill 2017 pryd bydd y ddogfennaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, disgwylir iddi fod yn debyg iawn i'r alwad yn 2016 ac felly mae Pwynt Cyswllt Cenedlaethol rhaglen LIFE y DU yn argymhell bod ymgeiswyr yn defnyddio Galwad LIFE 2016 a'r Rhaglen Waith Aml-Flynyddol.

Os hoffech wneud sylwadau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu drwy Bwynt Cyswllt Cenedlaethol rhaglen LIFE y DU ar: [UKLIFE@jncc.gov.uk](mailto:UKLIFE@jncc.gov.uk) a 01733 56 26 26.

### **Cronfeydd Cymunedol Tirlenwi**

Mae Cronfeydd Cymunedol Tirlenwi (LCF) – Cynllun Credyd Treth Tirlenwi gynt – yn gynllun blaengar sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu arian i Gyrrff Amgylcheddol cofrestredig i gynnal prosiectau sy'n cwrdd â'r nodau a gynhwysir yn Rheoliadau Treth Tirlenwi 1996. Mae ENTRUST yn rheoleiddio'r LCF ar ran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Dylai sefydliadau sy'n ymuno ymgeisio am gyllid drwy gyfrwng y system fynd at gyllidwr LCF, y gellir cael eu manylion ar wefan ENTRUST.

Mae pum prif faes gweithio y gellir eu hymgymryd wrth ddefnyddio arian LCF, a gelwir y rhain yn 'nodau'. Dyma'r nodau perthnasol:

- Ailgyfannu neu adfer tir na ellir ei ddefnyddio ar hyn o bryd oherwydd gweithgaredd sydd bellach wedi peidio a arferai ddiwydd yno
- Lleihau, rhwystro neu wella effeithiau llygredd sy'n ganlyniad i, neu a allai fod yn ganlyniad i weithgaredd sydd bellach wedi dod i ben
- Darparu, cynnal a chadw neu wella parc cyhoeddus neu amwynder cyhoeddus cyffredinol arall
- Cadwraeth rhywogaeth benodol neu gynefin penodol ble mae'n digwydd yn naturiol
- Trwsio, cynnal a chadw neu adfer man addoli neu safle o bwysigrwydd pensaernïol

Ewch i <http://www.entrust.org.uk/environmental-bodies/eb-search/> a chliciwch y blwch 'cyllidwyr yn unig' i weld rhestr o'r holl ffynonellau posibl gan y Gronfa Cymunedau Tirlenwi.

Trosoglwyddir cyfrifoldeb am Dreth Tirlenwi newydd Cymru i'r Llywodraeth ar 1 Ebrill 2018. Mae'r trosglwyddo cyfrifoldeb hwn yn effeithio ar yr LCF yng Nghymru a fydd hefyd yn dod i ben ar ôl 31 Mawrth 2018. Am ragor o fanylion am yr LCF yng Nghymru ac am unrhyw gyhoeddiadau ynghylch olynnydd i'r LCF yng Nghymru, ewch i wefan ENTRUST os gwelwch yn dda. Mae'r cronfeydd canlynol yn darparu arian drwy gyfrwng yr LCF.

### **Biffa Award**

Mae Gwobr Biffa'n cynnig grantiau rhwng £10,000 a £75,000 ar gyfer prosiectau cymunedol sydd o fewn i gylch penodol o waith Biffa ar hyn o bryd, gan weithio ar un o'r themâu canlynol: Ailadeiladu Bioamrywiaeth, Adeiladau Cymunedol neu Hamdden. Dylai prosiectau fod er budd y gymuned neu'r amgylchedd. I gael meini prawf cyllid llawn ac i gael mynediad i'r ffurflen gais ar lein, ewch i wefan Gwobr Biffa. Ariennir prosiectau Cyfleusterau Diwylliannol drwy gyfrwng Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol bellach. Mae Prosiectau Canolfannau Diwylliannol erbyn hyn yn cael eu hariannu gan [Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol](#) fel rhan o brosiect [Gwneuthurwyr Hanes](#).

### **Cory Environmental Trust in Britain**

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn dyfarnu grantiau o dan delerau Cronfeydd Cymunedau Tirlenwi. Mae'n croesawu cynigion i helpu CETB i fodloni ei hamcanion a gwella'r amgylchedd i gymunedau sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau safle tirlenwi Cory ac sy'n gweithredu yn Wrecsam ac Abertawe ar hyn o bryd. Mae gweithgareddau cymwys yn cynnwys gwella neuaddau cymunedol, creu ardaloedd chwarae newydd i blant, adfer mannau gwyrdd a chynefinoedd, a gwella cyfleusterau chwaraeon cymunedol a hamdden. Nid oes gan CETB uchafswm o ran grantiau a ddyfernir, ond rhoddir ffigur o £50,000 fel canllaw. Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw **7 Ebrill 2017**.

### **Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Veolia**

Mae Ymddiriedolaeth Amgylcheddol Veolia'n darparu cefnogaeth a chyllid drwy Gronfa Cymunedau Tirlenwi i brosiectau cymunedol ac amgylcheddol ar draws Cymru a Lloegr. Ers 1997, mae Veolia wedi cefnogi'r ymddiriedolaeth gyda chyfraniadau o dros £69 miliwn, gan ei galluogi i ddyfarnu 2,120 o grantiau i brosiectau. Mae'r mathau o brosiectau a gefnogir gan yr ymddiriedolaeth yn cynnwys gwella adeiladau cymunedol neu greu rhai newydd, gwella parciau a llwybrau, gosod cyfleusterau chwarae a hamdden, gwella gwarchodfeydd natur, a gwneud gwaith i gefnogi bioamrywiaeth. Bydd angen i ymgeiswyr edrych ar y meini prawf cymhwysedd sy'n berthnasol i'w lleoliad a'r meini prawf eraill cyn cyflwyno cais. Mae'r broses ymgeisio yn cynnwys dwy ran a cheir manylion ar wefan yr ymddiriedolaeth [www.veoliatrust.org](http://www.veoliatrust.org).

### **Cronfa Gweithredu yn y Gymuned FCC WREN**

Gweinyddir y Gronfa gan WREN a gall ariannu ystod eang o brosiectau o dan Wrthrych D o'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi - Darparu, cynnal a chadw neu wella parc cyhoeddus neu amwynder cyhoeddus cyffredinol arall. Mae WREN yn diffinio amwynder cyhoeddus fel rhywbeth y gall cymuned fanteisio arno a'i ddefnyddio at ddibenion hamdden. Mae cyllid ar gael sy'n werth rhwng £2,000 a £50,000. Rhaid i brosiectau gael eu lleoli o fewn 10 milltir i safle tirlenwi Amgylcheddol FCC yn ardaloedd gweithredu WREN yng Nghymru a Lloegr a bod ar gael i'r cyhoedd. Gall sefydliadau cymunedol, grwpiau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau dielw a grwpiau wneud cais am arian ar yr amod bod cyfansoddiad ffurfiol a chyfrif banc ganddynt. Gall awdurdodau lleol wneud cais hefyd. Dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau:

- Rownd FCC SAF 2017-2 **5pm dydd Mercher, 24 Mai 2017**
- Rownd FCC SAF 2017-3 **5pm dydd Mercher, 23 Awst 2017**
- Rownd FCC SAF 2017-4 **5pm dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017**

### **Prosiect Viridor a Chronfa Gymunedol Prosiect Gwyrdd**

Gall Cronfa Gymunedol Viridor a Phrosiect Gwyrdd ddarparu cymorth ariannol i fentrau cymunedol sy'n gweithredu yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol sy'n ffurfio Prosiect Gwyrdd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg. O Ebrill 2016, bydd £50,000 ar gael bob blwyddyn am 25 mlynedd. Mae hyn yn cynrychioli tymor cytundeb Prosiect Gwyrdd ar gyfer Viridor, i brosesu trin gwastraff sy'n weddill (nad yw'n gallu cael ei ailgylchu) yng Nghyfleuster Adfer Egni Parc Trident, Caerdydd. Dyfernir arian i brosiectau ar sail set o feini prawf a seilir ar gynaliadwyedd, angen lleol, cynhwysiant cymunedol, gwerth am arian ac addysg. Gallwch weld dogfen ganllaw'r gronfa [yma](#) i gael rhagor o wybodaeth.

### **Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig**

Mae'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn cael ei reoli gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac mae'n rhoi arian ar ôl i waith gael ei wneud i dalu am y TAW a ddaeth yn ddyledus ar atgyweirio a gwneud newidiadau i'r adeiladau rhestredig hynny a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer addoli cyhoeddus (lleiafswm gwerth gwaith cymwys £1000 – er y gellir cyflwyno un cais ble mae gwerth y gwaith cymwys yn digwydd bod rhwng £500-£1000 mewn unrhyw gyfnod penodedig o 12 mis). Mae gan y cynllun gyllideb benodedig flynyddol a hysbysebir ar wefan Cynllun Grant LPW bob blwyddyn. Cadarnhawyd y bydd y cynllun yn cael ei gyllido tan fis Mawrth 2020. Gellir llenwi ceisiadau ar lein neu drwy'r post. Gellir gweld manylion llawn y cynllun ar y wefan swyddogol: <http://www.lpwscheme.org.uk>

### **Cynllun Grant Fan Plygio-i-mewn**

Mae'r fenter hon gan y Llywodraeth Ganolog yn galluogi modurwyr sy'n prynu fan gymwys ag allyriadau isel iawn i gael grant o 20% tuag at gost y cerbyd, hyd at uchafswm o £8,000. Lluniwyd y grant fan plygio-i-mewn er mwyn helpu i wneud costau gydol oes fan gymwys yn fwy cyson â faniau petrol neu ddiesel tebyg. Gall defnyddwyr preifat a busnesau fanteisio ar y grant hwn.

### **Re:Fit Cymru**

Rhaglen gan Lywodraeth Cymru (a ddechreuwyd yn Ebrill 2016) yw Re:fit Cymru i gefnogi sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i nodi, datblygu a darparu effeithiolrwydd ynni a dŵr neu brosiectau adnewyddadwy sy'n ymwneud ag adeiladu gydag arbedion blynyddol gwarantedig a mesuredig. Mae Re:fit Cymru ar gael i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn unig. Mae Re:fit Cymru yn defnyddio fframwaith llwyddiannus Re:fit y DU, sy'n cydymffurfio â Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ac sydd wedi bod yn fuddiol i'r sector cyhoeddus yn y DU ers 2010. Mae rhaglen Re:fit Cymru yn darparu cefnogaeth broffesiynol sylweddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy gydol eu prosiectau, drwy Uned Gweithredu'r Rhaglen a'r Tîm Cymorth Technegol. Mae'r gefnogaeth hon yn helpu sefydliadau sy'n brin o adnoddau a chyllid.

Er mwyn elwa ar Re:fit Cymru, mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwyddo Cytundeb Mynediad a Chytundeb Cefnogi Cleientiaid, ac yn talu cyfraniad nominal o £10,000 (a delir ar ôl cyflawni'r prosiect) ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â'r gefnogaeth broffesiynol a roddir iddynt. Mae'r cyfraniad hwn yn cyfateb i ffracsiwn o werth gwirioneddol y gefnogaeth a dderbynnir gan bob sefydliad. Er mwyn ariannu Re:fit Cymru, gwnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau arian grant gan Gymorth Ynni Lleol Ewrop (ELENA), a weinyddir gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB).

Mae Re:fit Cymru yn gweithio'n agos gyda Thwf Gwyrdd Cymru a rhaglenni Llywodraeth Cymru eraill, gan gynnwys 'Rhaglen Gyllido Cymru', sy'n cynnig benthyciadau 0% buddsoddi i arbed, a benthyciadau Salix.

Bydd Re:fit Cymru yn darparu cefnogaeth drwy:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ymrwymiad sefydliadol
- Datblygu strategol a phrosiectau gan gynnwys meincnodi i nodi cyfleoedd i wneud arbedion ar gyfer buddsoddi



- Cefnogaeth caffel a chyfreithiol
- Cyngor technegol gan gynnwys cefnogaeth mesur a gwirio
- Mynediad i fframwaith sector cyhoeddus ar draws y DU
- Cefnogaeth wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Yn gryno, mae'r prif fanteision o ddefnyddio Re:fit Cymru fel a ganlyn:

1. Llywodraeth Cymru, rhaglen a gefnogir yn llawn gan dîm arbenigol
2. Mae'n defnyddio fframwaith cadarn a phroffedig Re:fit y DU
3. Mae'n galluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael yn gyflym â phrosiectau ynni/dŵr/costau / lleihau/cynnal carbon neu greu incwm ar raddfa fawr fesul cam – gydag adnoddau cyfyngedig
4. Mae'n cynnig arbedion gwarantedig, y gellir eu mesur a'u gwirio, sy'n trosglwyddo'r risg i'r darparwyr gwasanaeth, bob blwyddyn
5. Benthyciad sero % a chyllid grant ar gael gan Raglen Gyllido Cymru
6. Mae sefydliadau dim ond yn cyfrannu £10k tuag at becyn cymorth helaeth Uned Gweithredu'r Rhaglen a chymorth technegol, sy'n cael ei dalu'n hwyrach yn ystod cyfnod darparu'r prosiect. Rhoddir £2k er mwyn cefnogi camau pellach o'r prosiect.
7. Hyrwyddo ac integreiddio'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cyfleoedd prosiect.

Os ydych chi'n dod o sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a hoffech wybod mwy am sut y gall Re:fit Cymru fod o fudd i chi, cysylltwch â Glyn Mountford neu Tristan Oliver ar: [refitcymru@wales.gsi.gov.uk](mailto:refitcymru@wales.gsi.gov.uk)

### **Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020**

Mae Cymunedau Gwledig – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru yn rhaglen 7 blynedd dan y rhaglen European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella cydnheredd a hybu newid trawsffurfiol ym maes amaeth, coedwigaeth a chymunedau gwledig. Bydd y gronfa yn dod â bron 1 biliwn i'r Gymru wledig a bydd yn cefnogi gweithgareddau er mwyn gwella cystadleurwydd yn y sector amaeth a choedwigaeth; diogelu a gwella'r amgylchfyd gwledig; a meithrin busnesau gwledig cystadleuol a chynaliadwy a chymunedau gwledig llewyrchus.

Mae 6 o gynlluniau newydd wedi eu datblygu drwy'r CDG (hefyd eraill sydd wedi eu cynnwys o'r rhaglen olaf) a fydd yn cael eu defnyddio i benodi arian ar gyfer prosiectau addas drwy alwadau o fynegiadau o ddiddordeb, y cynlluniau yma yw:

<b>Cynllun</b>	<b>Dyddiad Cau</b>	<b>Gwybodaeth</b>
Cynllun Buddsoddiad Busnes Bwyd	Dyddiadau nesaf i'w cadarnhau.	Mae Cynllun Buddsoddiad Busnes Bwyd (FBIS) wedi cael ei gynllunio i helpu prif gynhyrchwyr o gynnyrch amaethyddol a busnesau sy'n gwneud gweithgareddau prosesu cam cyntaf, a/neu ailgam yng Nghymru. Gall y cynllun ddarparu buddsoddiad cyfalaf a chefnogaeth arall i brosiectau lle bo o leiaf 90% o gynnyrch amaethyddol cymwys yn cael eu prosesu.
Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig	31 Mawrth 2017	Mae Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) yn cynnig grantiau sydd yn cael eu targedu yn y lle cyntaf at Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a sefydliadau eraill wedi eu seilio yn y gymuned Bydd y grantiau yn darparu arian am ystod eang o weithgareddau i helpu cwrdd ag anghenion lleol ac i gryfhau cymunedau fel y gallant dyfu a llwyddo.

Cynllun Rheolaeth Cynaliadwy	Dyddiadau nesaf i'w cadarnhau.	Bydd y Cynllun Rheolaeth Cynaliadwy yn darparu cefnogaeth ariannol am ystod o weithgareddau a fydd yn gwella rheolaeth ein hadnoddau naturiol ac o wneud hynny cyfrannu at les Cymunedau gwledig. Cynigai'r cynllun grantiau i grwpiau cydweithredol sy'n chwilio am: wella ein hadnoddau naturiol a'r lles maent yn eu darparu. Gweithredu er mwyn lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr, gwella busnes a gwytnwch cymunedau i effeithiau newid hinsawdd.
Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy	Dyddiadau nesaf i'w cadarnhau	Mae'r Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) yn becyn cefnogi grant cyfalaf wedi ei anelu at ffermwyr yng Nghymru. Rydym wedi cynllunio'r cynllun yma i helpu ffermwyr wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd o'u safle amaethyddol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaeth yng Nghymru am fusnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chryf.
Cynllun Buddsoddiad Busnes Coed	28 Ebrill 2017	Mae'r Cynllun Buddsoddiad Busnes Coed yn darparu arian am fuddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth i goedwigoedd wrth alluogi gweithgareddau rheolaeth goedwigoedd, cynaeafu pren a/neu brosesu coed. Mae'r cynllun yn agored i berchnogion goedwigoedd preifat, awdurdodau lleol, rhai perchnogion coedwig yn y sector cyhoeddus a busnesau bach/ maint canolig (SMEs) a sefydliadau cymunedol neu gontractwyr goedwigoedd.
Cynllun Datblygu Cydweithrediad a Chadwyn Gyflenwol	10 Ebril 2017	Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cydweithredol ar draws y sectorau amaeth, bwyd a choedwigoedd. Mae'r Cynllun Datblygu Cydweithrediad a Chadwyn Gyflenwol (C&SCDS) wedi ei gynllunio i helpu gwneud pethau newydd i ddigwydd. Bydd yn darparu cefnogaeth ar gyfer ystod eang o faterion ac ar gyfer pob agwedd o'r prosiect, o'r camau cyntaf i ledaenu a gwerthuso. Ni all y cynllun gefnogi gweithgareddau ar y cyd sydd yn cymryd lle yn barod ond mae'n cefnogi grŵp sydd eisoes yn bodoli mewn ymgymryd â phrosiect newydd ar y cyd.
Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth	30 Ebrill 2017	Mae'r cynllun hwn yn annog cynllunio i greu coetir llydanddail a chonifferaidd. Trwy roi cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn cefnogi'r nod hwn a thrwy hynny: <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwella'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol</li> <li>• cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.</li> </ul> Nod y Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth yw cefnogi cynigion sy'n ceisio

		<p>hwyluso, datblygu neu sefydlu cydweithrediadau a gweithgareddau newydd, a helpu cydweithrediadau newydd posibl i ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau.</p> <p>Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n gymwys o dan y cynllun yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol</li> <li>• cyfathrebu a gweithgareddau lledaenu</li> <li>• astudiaethau technegol a dichonolrwydd</li> <li>• gweithgareddau monitro a gwerthuso.</li> </ul>
--	--	---

### **Glastir**

Glastir yw'r cynllun rheoli tir cynaliadwy a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'r UE i gynnig cefnogaeth ariannol i ffermwyr a rheolwyr tir.

Mae Glastir yn talu i ddarparu nwyddau amgylcheddol penodol a gwasanaethau sy'n anelu at:

- mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- gwella rheoli dŵr
- cynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth.

Mae wedi'i gynllunio i gyflawni canlyniadau mesuradwy ar lefel fferm a thirwedd mewn modd cost-effeithiol.

Mae Cynllun Grantiau Bach Glastir i fod i agor rownd ariannu ym mis Rhagfyr 2016. Cewch fwy o wybodaeth am Glastir [yma](#).

### **Cronfa Datblygiad Cynaliadwy Sustainable Development Fund**

Cafodd Cronfa Datblygiad Cynaliadwy ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2001 fel rhan o'r gefnogaeth oedd ar gael ar gyfer tirweddau gwarchoddedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) a datblygiadau cynaliadwy. Prif nod y Gronfa yw cefnogi a hyrwyddo ffordd fwy cynaliadwy o fyw o fewn yr ardaloedd arbennig hyn. Mae Cronfa Datblygiad Cynaliadwy yn darparu cymorth grant i brosiectau amgylcheddol arloesol, prosiectau economaidd a chymunedol sy'n datblygu ac yn profi ffyrdd newydd o gyrraedd ffordd o fyw mwy cynaliadwy o fewn AHNE a Pharciau Cenedlaethol.

Am fwy o wybodaeth am y gwahanol gronfeydd cysylltwch â:

- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Brecon Beacons National Park : Ceri Bevan/Helen Roderick (JobsShare) [ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-npa.gov.uk) [helen.roderick@beacons-npa.gov.uk](mailto:helen.roderick@beacons-npa.gov.uk)
- Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Pembrokeshire National Park: Emma Taylor [emmat@arfordirsirbenfropembrokeshirecoast.org.uk](mailto:emmat@arfordirsirbenfropembrokeshirecoast.org.uk)
- AHNE Dyffryn Gwy Wye Valley AONB: Sarah Sawyer [cymuned@dyffryngwy.org.uk](mailto:cymuned@dyffryngwy.org.uk) [community@wyevalley.org.uk](mailto:community@wyevalley.org.uk)
- AHNE Gŵyr Gower AONB : Mike Scott [mike.scott2@abertaweswansea.gov.uk](mailto:mike.scott2@abertaweswansea.gov.uk)
- AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley AONB : Ceri Lloyd [ceri.lloyd@denbighshire.gov.uk](mailto:ceri.lloyd@denbighshire.gov.uk) David Shiel [david.shiel@denbighshire.gov.uk](mailto:david.shiel@denbighshire.gov.uk) or telephone 01824 712757

## Arian y Loteri

### Loteri Genedlaethol

Rhoddir arian y Loteri Genedlaethol gan 12 o sefydliadau annibynnol, ac mae pob un ohonynt yn meddu ar wybodaeth arbenigol o'u sectorau i gefnogi Achosion Da y Loteri, sef y celfyddydau, elusennau a grwpiau gwirfoddol, treftadaeth, iechyd, addysg, yr amgylchedd a chwaraeon.

### Y Gronfa Loteri Fawr

Y Gronfa Loteri Fawr (BIG) yw'r mwyaf o holl ddsbarthwyr arian y Loteri ac mae'n gyfrifol am ddsbarthu 40 y cant o arian achosion da y Loteri. Mae Cronfa'r Loteri Fawr yn cefnogi'r cymunedau sydd fwyaf mewn angen, drwy ariannu prosiectau iechyd, addysg, amgylchedd a chymunedol. Gwnânt hyn drwy roi cyfrifoldeb i arwain ar y bobl a gweithio gyda hwy i feithrin eu cryfderau, sgiliau ac egni i fynd â'u syniadau a'u prosiectau ymlaen i greu lle gwell i fyw.

### Arian i Bawb (Cymru)

Mae Arian i Bawb yn darparu ffordd gyflym a hawdd o gael grantiau bach y Loteri Genedlaethol sy'n werth rhwng £500 a £5,000 ar gyfer prosiectau sy'n ceisio helpu i wella cymunedau lleol a bywydau pobl sydd â'r angen mwyaf. Mae'n agored i grwpiau cymunedol, grwpiau dielw, Cynghorau Cymuned a Thref, cyrff Iechyd ac ysgolion. Mae'r rhaglen yn annog ystod eang o brosiectau cymunedol, iechyd, addysgol ac amgylcheddol sy'n galluogi gweithgarwch cymunedol, yn ehangu mynediad a chyfranogiad, yn gwella sgiliau a chreadigrwydd neu'n gwella ansawdd bywyd pobl yn eu hardal yn gyffredinol. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd.

### Rhaglen Pobl a Lleoedd

Bydd y rhaglen hon yn ariannu prosiectau sy'n galluogi pobl i weithio gyda'i gilydd i greu cymunedau cryf, cyfiawnder cyhoeddus a gwell amgylcheddau gwledig a threfol yng Nghymru. Y nod yw galluogi trigolion lleol i droi eu cymunedau lleol yn lleoedd gwell i fyw ynddynt. Mae grantiau sy'n werth rhwng £5,000 ac £1 filiwn ar gael i sefydliadau'r sectorau gwirfoddol, cymunedol neu gyhoeddus sydd naill ai'n gweithio ar wahân neu gyda'i gilydd. Gall cynghorau ysgolion a chymuned hefyd gyflwyno cais cyn belled â bod y prosiect yn ychwanegol at y gwasanaethau y talwyd amdanynt gan drethi. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd.

### Y Gronfa Loteri Fawr : Rhaglen Wledig Grantiau Cymunedol

Mae y Gronfa Loteri Fawr yn gwahodd grwpiau cymunedol i ymgeisio am ariannu i daclo tloidi gwledig ym Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr a Sir Fynwy.

Mae grantiau rhwng £10,000 a £350,000 ar gael i grwpiau y bydd eu gwaith yn creu buddion ar gyfer cymunedau sydd â phoblogaeth o 10,000 neu lai. Os oes gennych brosiect sy'n mynd y tu hwnt i'r ystod gyllideb hon neu unrhyw un o'r meini prawf a nodir, rhowch alwad i ni i drafod eich syniad. Bydd rowndiau ariannu pellach yn cael eu cyhoeddi y flwyddyn nesaf.

Er nad ydym yn bod yn benodol ynglŷn â'r mathau o weithgareddau y gellid eu hariannu, byddai angen i geisiadau ddangos sut mae grwpiau'n gwneud unrhyw un o'r canlynol i fynd i'r afael â thloidi:

- Gwella lles
- Codi dyheadau
- Adeiladu cyfalaf cymdeithasol - gwella'r sgiliau sydd ar gael yn y gymuned
- Cynyddu gwydnwch yn wyneb amgylchiadau heriol

**Dyddiad Cau:** 03 Ebrill 2017

### Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnal ac yn trawsnewid treftadaeth ar raddfa eang drwy fuddsoddiadau arloesol mewn prosiectau sy'n cael effaith parhaol ar bobl a llefydd. **Mae'n awyddus i annog prosiectau y gellir eu hariannu'n haws o'r sector treftadaeth naturiol a gall gwasanaeth cymorth Catalyst Cymru roi cyngor a chymorth i gael gafael ar grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri.** Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dyfarnu ystod o grantiau sy'n werth

£3,000 a mwy drwy'r rhaglenni a ganlyn. Mae gan bob rhaglen feini prawf, prosesau gwneud cais a dyddiadau cau gwahanol.

### **Rhannu Treftadaeth**

(£3,000 i £10,000) Yn ymchwilio i dreftadaeth gymunedol gan amrywio o gofnodi atgofion i warchod bywyd gwyllt. Disgrifir y rhaglen fel un syml, gyda ffurflen gais fer a phenderfyniad cyflym.

### **Ein Treftadaeth**

(£10,000 i £100,000) Mae'r rhaglen ar agor i sefydliadau dielw, perchnogion preifat sefydliadau treftadaeth a phartneriaethau i ddiogelu a rhannu pob agwedd ar dreftadaeth yn amrywio o atgofion personol a thraddodiadau diwylliannol i safleoedd archaeolegol, casgliadau amgueddfeydd a bywyd gwyllt prin. Os bydd unigolion neu sefydliadau dielw yn gysylltiedig â hyn, rhaid i fudd y cyhoedd o'r prosiect fod yn fwy nag unrhyw ennill preifat.

### **Grantiau Treftadaeth**

P'un a ydych chi eisiau achub adeilad hanesyddol, rhoi bywyd newydd i gasgliad, neu gofnodi hanesion pobl, gall Grantiau Treftadaeth eich helpu gyda grantiau dros £100,000. Gall y rhaglen eich helpu i ddechrau cloddiad archeolegol, helpu pobl i ddysgu sgiliau traddodiadol a gollwyd amser maith yn ôl, gofalu am rywogaethau a chynefinoedd prin, a llawer mwy.

### **Gwreiddiau Ifanc**

(£10,000 i £50,000) Mae'r rhaglen hon ar gyfer prosiectau sy'n helpu pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ymchwilio i'w treftadaeth, o fannau gwyrdd, amgueddfeydd, a safleoedd hanesyddol i iaith, atgofion lleol a diwylliant ieuenctid.

### **Parciau i Bobl**

(£100,000 i £5 miliwn) Mae Parciau i Bobl yn cefnogi'r gwaith o adfywio parciau cyhoeddus cynlluniedig trefol neu barciau gwledig cyhoeddus gan gynnwys gwarchod eu treftadaeth, tirwedd, rhywogaethau â blaenoriaeth, cynefinoedd ac atgofion cysylltiedig (e.e. coed hynafol). Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys parciau trefol, parciau gwledig, gerddi, sgwariau a gerddi promenâd glan y môr. Mae'r gronfa hefyd yn cefnogi mynwentydd a chladdfeydd.

### **Partneriaethau Tirwedd**

(£100,000 i £3 miliwn) Mae'r rhaglen Partneriaethau Tirwedd ar gyfer cynlluniau wedi'u harwain gan bartneriaethau o fuddiannau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n anelu at warchod ardaloedd sydd â nodwedd nodedig ar y dirwedd ledled y DU. Dyddiad Cau blyneddol o 31 Mai.

## **Adnoddau Defnyddiol a Chymorth**

### **Environet**

Mae Environet Cymru yma i gefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr o unrhyw grŵp cymunedol neu sefydliad trydydd sector yng Nghymru sydd am ddechrau prosiect amgylcheddol neu i ddatblygu prosiect sydd yn bodoli'n barod ymhellach. Mae Cymunedau a chyrrff trydydd sector yn barod yn chwarae rôl allweddol yn codi ymwybyddiaeth am, ac yn gweithredu ar, rhai o'n heriau mwyaf amgylcheddol pwysig fel newid hinsawdd, colli rhywogaeth a defnydd adnoddau anghynladwy. Maent hefyd yn ffurfio adnodd o wybodaeth ffantastig, syniadau a dysgu sydd yn gallu ysbrydoli a chefnogi eraill i ddatblygu gweithgareddau amgylcheddol hefyd.

Mae Environet Cymru yn bwriadu rhannu a hyrwyddo'r dysgu yma drwy rwydweithio, digwyddiadau rhanbarthol a chefnogaeth ar-lein a dros y ffon.

Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth cyd-drefniant i ddatblygiad prosiect rhanbarthol neu genedlaethol a helpu grwpiau neu bartneriaethau i archwilio'r posibilid o geisio am ariannu ar raddfa fwy. Gydani gilydd, hyd yn oed gyda gweithrediadau bychain, gyda'r cyngor a'r gefnogaeth gywir, gall gael effaith anferthol, felly dewch i gysylltiad heddiw!

Os oes gennych syniad penodol ar gyfer prosiect amgylcheddol yr hoffech ei ddechrau neu i ddarganfod partneriaid, adnoddau neu gronfeydd - yna dewch i gysylltiad os gwelwch yn dda. Byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyhch! E-bost: [environet@wcva.org.uk](mailto:environet@wcva.org.uk)

### **A vdych chi'n gwneud pethau yn 'Ffordd Natur'?**

Mae gofalu am natur yn ein cartrefi a'n gerddi yn un peth, ond sut rydym yn ei wneud yn y lleoedd lle rydym yn gweithio neu'n gwirfoddoli?

Cynlluniwyd gyda grwpiau cymunedol mewn golwg, mae Environet Cymru wedi cynhyrchu canllawiau Buddsoddi mewn Natur newydd i'n helpu i edrych ar yr effeithiau negyddol y gallem fod yn eu cael yn anfwriadol ar natur ac mae'n egluro'r camau syml ac ymarferol sy'n cael eu hanwybyddu'n aml y gallwn eu cymryd i Helpu Bywyd Gwylt i Ffynnu. Mae hefyd yn egluro sut y gallwch ddylanwadu ar eraill a gwneud mwy ar draws eich grŵp neu sefydliad drwy Gynnwys Byd Natur yn eich Polisi Amgylcheddol.

### **The Arthur Rank Centre**

Mae'r Ganolfan yn ymrwymedig i gefnogi'r gymuned wledig, ac mae wedi sefydlu 'Computers for Rural People' i gynnig cyfrifiaduron am gost isel iawn er mwyn annog pobl sy'n byw mewn man gwledig anghysbell i ymuno â'r byd digidol. Mae hefyd yn cynnig adnoddau eraill a ddisgrifir yn ddefnyddiol i gymunedau gwledig.

### **B&Q**

Mae pob siop B&C yn gweithredu cynllun ailddefnyddio gan y gymuned a thrwy'r cynllun hwn gall ysgolion lleol, sefydliadau addysg arall a grwpiau cymunedol elwa o roddion sy'n cynnwys cynhyrchion na ellir eu gwerthu a defnyddiau i'w haildefnyddio.

### **Cyfleoedd gyda Busnes yn y Gymuned**

Busnes yn y Gymuned (Business in the Community (BITC) Cymru) yw Rhwydwaith Fusnes Gyfrifol y Tywysog yng Nghymru. Ni yw'r elusen a arweinir gan fusnes sy'n gweithio gyda busnesau o bob maint ac ymhob sector er mwyn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar fanteision masnachol arferion busnes cyfrifol; ac ar yr un pryd wneud gwahaniaeth go iawn i bobl, economi ac amgylchedd Cymru. Ar hyn o bryd mae gennym gyfleoedd ble gall sefydliadau cymunedol elwa o gefnogaeth fusnes rhad ac am ddim, a sgiliau, brwdfrydedd ac egni gwirfoddolwyr o blith cyflogeion. Os oes gan eich elusen neu grŵp cymunedol brosiect y gellir ei gwblhau mewn diwrnod gan dîm o wirfoddolwyr – hoffem glywed oddi wrthyhch!. Gall timau amrywio mewn maint rhwng 10\_50 o bobl, yn dibynnu ar faint sydd eu hangen arnoch, Er bod rhyw gymaint o godi arian yn bosib, rydym ni'n chwilio am brosiectau ble gall gwirfoddolwyr rannu'u hamser, eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn y bôn, yn hytrach na gwneud cyfraniad ariannol.

Dyma'r math o brosiectau y gellid eu cynnwys:

- Trefnu a chynnal gweithdai a gweithgareddau sgiliau
- Gwneud ystafell gymunedol yn fwy croesawgar a deniadol (e.e. creu murluniau a gwella'r lle)
- Harddu gofod allanol (e.e. creu gardd synhwyrau, datblygu patshyn llyisiau neu wely blodau, creu llwybr)

Os oes gennych chi syniad, neu os hoffech drafod rhywbeth gyda ni, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Simon Walters o'r Tîm Cymunedol yn BITC Cymru ar 029 2078 0050 neu e-bostiwch [simon.walters@bitc.org.uk](mailto:simon.walters@bitc.org.uk)

### **Coed Cymru**

Mae Coed Cymru'n rhoi cymorth a chyngor rhad ac am ddim ar reoli coedwigoedd yn sensitif a defnyddio cynnyrch coedwigoedd mewn modd cynaliadwy. Mae'n cwmpasu'r sbectwm cyfan o dyfu coed newydd hyd at gynnyrch pren caled o Gymru sydd o safon uchel. Bwriad cyffredinol Coed Cymru yw bod yn hyrwyddwr ac yn gorff ymgyrchol ar gyfer coedwigoedd collddail yng Nghymru a gweithredu fel catalydd i greu budd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol drwy reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Rhoddir cyngor i bartïon â diddordeb ledled Cymru, gan gynnwys perchnogion coedwigoedd, ffermwyr, proseswyr pren, cadwraethwyr, pobl leol,

cymunedau, a'r rheiny sy'n ymwneud â chyflogi mewn ardaloedd gwledig, twristiaeth a hamdden. Mae Coed Cymru hefyd yn gwneud gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwil a datblygiad, cymorth technegol, addysg a hyfforddiant, ac ymgyrch i ymgorffori traddodiad coedwigol ym mywyd cymdeithasol a masnachol Cymru.

### **Ynni Lleol**

Mae Ynni Lleol yn galluogi cymunedau lleol i gydweithio er mwyn crynhoi'r cynhyrchiant ynni sy'n eiddo lleol a rheoli galw lleol er mwyn lleihau biliau ac allyriadau carbon – [darllenwch ragor yma](#). Mae Ynni Lleol o'r farn y dylai cymunedau elwa o symud eu defnydd o ynni i adegau rhatach o'r dydd a'i unioni â chynhyrchu lleol. Os oes gennych chi brosiect ynni lleol neu os oes gennych ddiddordeb yn y syniad, [cysylltwch](#) os gwelwch yn dda, a [gofynnwch am y cylchlythyr](#).

### **Federation of City Farms and Community Gardens**

Mae'r FCFCG yn rhoi cefnogaeth i unrhyw un sy'n ymuno ag eraill yn eu cymdogaeth i greu a meithrin ardal werdd er budd eu cymuned. Mae ystod eang o wybodaeth a chyngor defnyddiol i'w gael ar-lein ar gyfer [tyfwyr cymunedol yng Nghymru](#). Mae'r FCFCG hefyd yn rheoli'r **Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol Community (Land Advisory Service in Wales (CLAS Cymru))** a'i nod yw cynorthwyo grwpiau tyfu cymunedol, tîrfeddianwyr – ynghyd ag eraill sy'n ymwneud â hygyrchedd tir – i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod mwy o dir ar gael ar gyfer tyfu cymunedol. [Tyfu Gyda'n Gilydd/Growing Together](#) – prosiect a luniwyd gyda'r bwriad o helpu prosiectau tyfu cymunedol i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

### **Arfer Da Cymru**

Porth mynediad ar-lein sengl i arfer da a gwybodaeth gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw Arfer Da Cymru.

### **HIPPOWASTE Grants up for Grabs**

Mae'r cynllun 'Grants up for Grabs' yn cynnig help i waredu gwastraff am ddim yn dilyn ceisiadau gan elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau o bob rhan o'r DU sy'n ysbrydoli parch at yr amgylchedd neu sy'n cael effaith gadarnhaol ar y gymuned.

### **In Kind Direct**

Elusen gofrestredig yw In Kind Direct a sefydlwyd gan Dywysog Cymru yn 1996 i weithredu fel system glirio ar gyfer nwyddau dros ben o'r sector corfforaethol. Mae'r nwyddau hyn yn cael eu hanfon at achosion da yn y sector gwirfoddol wedi hynny. Nod In Kind Direct yw cynyddu'r llif o nwyddau i elusennau'r DU, gan helpu pobl sydd mewn angen, yn y DU a thramor. Mae'n gwneud hyn drwy gynnig nwyddau cost isel i sefydliadau o fewn y sector gwirfoddol. Mae sefydliadau sydd wedi'u cofrestru â'r nawdd yn derbyn rhestr bob mis o'r nwyddau sydd ar gael. Yna gall eitemau gael eu harchebu o'r rhestr.

### **Llais y Goedwig - rhwydwaith y gymuned coetir yng Nghymru**

Mae Llais y Goedwig yn rhwydwaith llawr gwlad ac iddi 350 o aelodau a'i nod yw cynrychioli a chefnogi grwpiau coetir cymunedol ac ymarferwyr ar draws Cymru. Mae'n darparu amrywiaeth o adnoddau, cysylltiadau ac astudiaethau achos i gefnogi greu a rheoli coetiroedd cymunedol cynaliadwy ynghyd â Gwasanaeth Ymholiadau lle gellir rhannu pryderon a chael atebion i ymholiadau gan aelodau eraill o'r rhwydwaith.

### **Localgiving – Rhaglen Datblygu Cymru**

Elusen sy'n helpu sefydliadau ar lawr gwlad i godi arian ar-lein, datblygu eu sgiliau digidol, a chysylltu â phobl leol. Ers 2009, maent wedi helpu sefydliadau elusennol i godi dros £13 miliwn ar-lein! Diolch i'r arian hael a chefnogaeth gan [Loteri Fawr Cymru](#), mae Localgiving wedi lansio rhaglen ddwy flynedd gyffrous yng Nghymru.

Bydd elusennau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu yn elwa ar amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys:

- Aelodaeth 12 mis yn rhad ac am ddim gyda Localgiving (cost arferol £72)
- Cefnogaeth un i un, hyfforddiant a mentora wrth godi arian ar-lein
- Unigolyn cyswllt penodol y gellir cael gafael arno ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.30am i 5.30pm, i drafod yr holl faterion sy'n ymwneud â chodi arian ar-lein
- £200 o arian cyfatebol ar gyfer rhoddion a dderbynnir ar-lein
- Cymorth rhodd awtomataidd, ar gyfer elusennau cofrestredig ac anghofrestredig.

Os gallai eich elusen neu grŵp cymuned elwa, nodwch eich diddordeb ar [join.localgiving.org/wales](http://join.localgiving.org/wales), neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [emma@localgiving.org](mailto:emma@localgiving.org)

### **NCVO**

Mae NCVO yn darparu canllawiau ar gyllid cynaliadwy, astudiaethau achos ac adnodd hunanasesu sefydliadol. Mae ei wefan KnowHowNonProfit hefyd yn darparu adnoddau ar gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm gan gynnwys codi arian mewn ffordd ddigidol, comisiynu diwylliannol, masnachu a siopau a buddsoddiad cymdeithasol.

### **Lleolwr Egni Adnewyddol**

Bwriad y lleolwr egni adnewyddol yw rhoi llun hawdd ei gael o sut y mae egni adnewyddol yn datblygu yn unrhyw ardal yng Nghymru a Lloegr; mae'r lleolwr egni adnewyddol yn dangos faint o drydan a nwy a ddefnyddir mewn ardal benodol sy'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddol a pha mor dda mae lleoedd yn perfformio o'u cymharu â lleoedd eraill.

### **Cymorth gydag Egni Adnewyddol**

Datblygwyd Cymorth gydag Egni Adnewyddol Cymuned Cymru er mwyn helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau egni adnewyddol. Mae wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bobl sy'n ymwneud â'r dechnoleg, datblygu'r prosiect, a materion ariannol a chyfreithiol, waeth beth fo lefel eu dealltwriaeth.

### **Cymru Effeithlon**

Cymru Effeithlon yw pwynt mynediad unigol Llywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am ystod o bynciau ar effeithlonrwydd adnoddau i grwpiau cymunedol, elusennau, cartrefi, busnesau neu gyrff cyhoeddus. Mae llinell gymorth ddwyieithog yn rhoi gwybodaeth benodol am arbed ynni a dŵr, a lleihau gwastraff neu ei waredu'n fwy effeithlon. Codir tâl ar y gyfradd leol am alwadau, hyd yn oed o ffôn symudol a gallwch ofyn am i rywun eich ffonio nôl, ac fe wneir hynny cyn pen 2 ddiwrnod gwaith. Mae'r llinell gymorth 0300 123 2020 ar agor rhwng 9am a 5pm.

### **Offer Hunanasesu Effeithlonrwydd Adnoddau**

Gallai eich busnes neu sefydliad leihau gorbenion drwy ddefnyddio llai o ynni a dŵr, defnyddio llai o ddeunyddiau crai, a lleihau gwastraff gyda'r Offeryn Hunanasesu Effeithlonrwydd Adnoddau newydd. Mae gwasanaeth Cymru Effeithlon Llywodraeth Cymru yn rhad ac am ddim ac yn hawdd cael mynediad iddo. Gall unrhyw fusnesau yng Nghymru wneud cais a chael eu paru â Rheolwr Cleient arbenigol o WRAP Cymru neu'r Ymddiriedolaeth Garbon. Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â: WRAP Cymru – 02920 100100 a Cymru Effeithlon – 0300 123 2020

### **Cymorth i Ddod o Hyd i Bartneriaid Ewropeaidd ar gyfer Prosiectau a Chydweithredu**

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn aelod o'r rhwydwaith Ewropeaidd o Sefydliadau'r Gymdeithas Ddinesig Cenedlaethol, ac yn aelod o rwydweithiau cyrff anllywodraethol cenedlaethol o'r UE, Norwy a Thwrci, sydd wedi creu e-gronfa ddata partneriaid anllywodraethol sy'n cynorthwyo cyrff anllywodraethol i ddod o hyd i bartneriaid ledled Ewrop, naill ai ar gyfer partneriaethau prosiect neu gydwethrediad cenedlaethol cyffredinol.

### **Pencampwyr Cymunedol Tesco**

Mae gan Tesco dros 500 o bencampwyr, yn bennaf yn ei siopau mwyaf, sy'n gallu cynorthwyo elusennau, grwpiau a sefydliadau lleol nad ydynt yn gwneud elw i gynnal amryw weithgareddau elusennol a gweithgareddau codi arian yn y siop neu yn eu cymuned leol.



### **Third sector European Team (3-SET)**

Mae gwasanaeth 3-SET Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd er mwyn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector sy'n ceisio cael at nawdd gan Ewrop trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, adnoddau a hyfforddiant.

### **Trefi Taclus**

Mae Trefi Taclus yn fenter gymunedol sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, a'i bwriad yw cynorthwyo grwpiau cymorth gwirfoddolwyr i fod yn gyfrifol am eu hamgylchfyd lleol. Mae'n cefnogi cymunedau er mwyn gwneud ardaloedd lleol yn fannau gwell, glanach i fyw ynddynt e.e. drwy droi tir gwastraff yn lle sy'n cael ei rannu gan y gymuned; creu a rheoli cynefinoedd peillio cyfoethog, rheoli rhywogaethau goresgynnol, prosiectau tyfu, neu wella mynediad i gyfleusterau lleol drwy adfer llwybrau. Mae swyddog prosiect Cadwch Gymru'n Daclus yn gweithio ym mhob awdurdod lleol er mwyn cynorthwyo grwpiau i roi cychwyn arni a gyda meithrin sgiliau a gallu. Mae'r swyddogion hefyd yn helpu prosiectau i gysylltu â'r awdurdod lleol, yn ogystal â'r heddlu ac asiantaethau amgylcheddol.

### **Turn2Us**

Mae Turn2us yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl mewn cynni ariannol i gael mynediad at fudd-dal lles, grantiau elusennol a gwasanaethau cefnogi. Os ydych yn **gyfryngydd** – un o'r miloedd o gynghorwyr, swyddogion lles, gweithwyr cymorth ac ymwelwyr cartref gwirfoddol sy'n cael cysylltiad wyneb yn wyneb â phobl mewn tldi – gall Turn2us eich helpu i gael yr adnoddau cywir i gefnogi'r bobl rydych yn gweithio gyda hwy. Gallech hefyd storio manylion a cheisiadau unigolion yn eich cyfrif cyfryngydd Turn2us cudd a diogel, fyddai'n eich galluogi chi i gael mynediad ac i ddiweddarau gwybodaeth fel bo angen. Mae Turn2us hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda llawer o sefydliadau i ddatblygu prosiectau a gwasanaethau sy'n cynnwys cyfryngwyr.

### **Cymorth Brys i Bentrefi**

Nod yr ymgyrch yw ysbrydoli cymunedau lleol i weithredu, drwy gefnogi prosiectau cymunedol newydd, rhai sy'n ael eu datblygu a rhai sy' bodoli eisoes, a fydd o fudd i drigolion cymunedau gwledig ledled y DU Gellir cael cymorth ar gyfer prosiectau a fyddai'n helpu i ailsefydlu neu ailgyflwyno gwasanaethau ac adfywio'r gymuned. Efallai y gallai hynny fod drwy gyfrwng cadw gwasanaethau fel siopau neu gylchoedd chwarae'n agored mewn pentref neu drwy gychwyn ar fenter newydd a allai greu incwm er budd yr ardal leol.

### **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn gweithredu Porth Ariannu'r Trydydd Sector, 'siop un stop' ar gyfer cyngor ar gyllid a chyfleoedd am gyllid. Mae'r porth yn cynnwys **GRANTnet**, chwiliad ariannu ar-lein sylfaenol am ddim a all helpu i nodi cyfleoedd am gyllid ar gyfer eich gweithgaredd neu brosiect. Ar gyfer sefydliadau treftadaeth ceir rhaglen hefyd o gymorth codi arian arbenigol o'r enw Catalyst Cymru.